Trosolwg

Monday, December 16, 2019 9:49 AM

Teitl: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfyrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Rhif myfyriwr: 1900322

Enw: Miss Hanna Lowri Evans

Llwybr: TAR Cynradd

Dolen OneDrive: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1900322_student_uwtsd_ac_uk/Egmm8CFNBu9Inv_-PlEsdOABzzuliqrqcwlbES6GfLHXEA?e=NOnL39

Targedau o'r aseiniad blaenorol:

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn.
Targed 1	Dylid sicrhau bod modd i'r darllenydd fedru cael gafael ar unrhyw ffynhonell a cyfeirir ati wrth ddilyn canllawiau Llawlyfr Cyfeirnodi Havard.	Dilyn canllawiau Llawlyfr Cyfeirnodi Havard a sicrhau bod bob ffynhonell yn hygyrch.
Targed 2	Gwirio gwaith ysgrifenedig yn ofalus ac, wrth ddarllen drosto, sicrhau bod ystyr yr hyn a drafodir yn glir i eraill.	Darllen dros fy ngwaith yn fanwl gan ei rhoi drwy cysill. Gofynais i aelod allanol ddarllen dros fy ngwaith er mwyn sicrhau rhediad ystyr clir.

Trosolwg


Rhannwyd y portffolio hwn yn dair rhan gyda'r bwriad o ddarparu rhywfaint o arweiniad drwy'r cyfoeth o ddeunyddiau a chefnogaeth sydd ar gael, darparu llwyfan ar gyfer rhannu syniadau a phrofiadau, ac archwilio ambell faes sydd ar flaen y gad wrth arwain y dysgu.
Wrth weithio'n systematig drwy'r portffolio bwriadwyd trafod ac adfyfyrio tair egwyddor addysgegol sef: Mae addysgu a dysgu da'n golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu; drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer; mae addysgu a dysgu da'n golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb. Gwneir hyn am y gall edrych nôl ar y gorffennol fod yn fodd i ddeall beth a phwy ydych chi, yn gliriach, fel y gallwch adeiladu dyfodol doethach (Webb, 2010).

Enghraifft ddarluniadol 1 - Cwestiynu

Monday, December 16, 2019 9:49 AM







Atodiad 4

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	• Galw i gof beth ydy siâp 2D thrwy gwestiynu a defnyddio strategaeth y bêl fasged • Esbonio bod siapiau 2D yn fflat. • Cwestiynu'r plant gan ddefnyddio ffyn lolipop, beth yw ochr, cornel ac wyneb siâp. • Atgoffa'r disgyblion beth yw ochr, cornel ac wyneb siâp. • Cwestiynu'r dysgwyr gan ddefnyddio ffyn lolipop i esbonio'r gwrthrych 3D. • Cyflwyno siâp 3D, a gofyn i'r plant weithio gyda chyfaill cŵl (Meddwl-paru-rhannu) i gynnig ac esbonio'r gwahaniaeth rhyngddo a siâp 2D. • Dangos enghreifftiau i'r plant (e.e.. can, côn, dis, rolyn tŷ bach) defnyddio ffyn lolipop i ofyn i'r dysgwyr esbonio beth sydd yn y llun. • Gofyn i'r disgyblion (gan ddefnyddio'u gwyntyllau asesu o'u blaen) os yr ydyn yn hapus ac yn deall yr hyn a drafodwyd ar y carped. • Rhannu'r disgyblion mewn i grwpiau.	• Ymateb – pasio'r bêl at rywun arall ar y carped er mwyn cael eu hadborth hwy. • Gwrando ac ymateb beth yw ochr, cornel ac wyneb siâp. • Esbonio'r gwrthrych 3D (gan ddefnyddio teimlad o wers flaenorol e.e. llyfn, pigog..) • Gweithio gyda chyfaill cŵl i ddatrys problem. • Esbonio beth sydd yn y llun. • Defnyddio gwyntyllau asesu i ymateb os yr ydyn yn deall neu beidio. • Mynd i'w grwpiau.	• Siapiau 3D. • Gwrthrychau 3D. • Pwynt Pŵer. • Ffyn lolipop. • Gwyntyllau asesu. • Pêl
Addysgu a Dysgu Craidd	MAT • Esbonio'r dasg. • Sicrhau ei bod nhw'n deall y meini prawf llwyddiant, gofyn iddynt ddefnyddio'r gwyntyllau asesu i ymateb trwy gydol y dasg. • Cwestiynu 'pam' i'r plant trwy gydol y dasg fel modd o gadw ffocws y dysgwyr ac i feddwl.	MAT • Ymateb i'r meini prawf gan ddefnyddio'r wyntyll asesu. • Defnyddio'r gwrthrychau a'r siapiau 3D i ddarganfod beth y gwnaed – rolio, stacio, llithro? • Cofnodi'r canlyniad mewn tabl. • Ychwanegu ambell enw yn hytrach na llun ar eu cardiau bingo.	• Siapiau 3D • Taflenni bingo • Tabl cofnodi • Ipad • Gwrthrychau 3D • Gwyntyllau asesu. • Ffyn lolipop

	• Wrth i'r dysgwyr ymateb i'r cwestiynau, dylid llanw'r grid asesu gan ddilyn system yr ysgol (tic, tic â chylch a dotyn). Grŵp Coch (Tasg tu allan) • Esbonio'r dasg. • Sicrhau ei bod nhw'n deall y meini prawf llwyddiant, gofyn iddynt ddefnyddio'r gwyntyllau asesu i ymateb trwy gydol y dasg. • Cwestiynu 'pam' i'r plant trwy gydol y dasg fel modd o gadw ffocws y dysgwyr ac i feddwl. • Wrth i'r dysgwyr ymateb i'r cwestiynau, dylid llanw'r grid asesu gan ddilyn system yr ysgol (tic, tic â chylch a dotyn).	• Ymateb i'r cwestiynau trwy gydol y dasg. • Defnyddio'r wyntyll fel ffordd i ennyn cymorth drwy'r dasg. Grŵp Coch (Tasg tu allan) • Ymateb i'r meini prawf gan ddefnyddio'r wyntyll asesu. • Defnyddio'r gwrthrychau a'r siapiau 3D i ddarganfod beth y gwnaed – rolio, stacio, llithro? Gosod y gwrthrychau mewn gwahanol hwpiai. • Cofnodi'r canlyniad mewn tabl. • Ymateb i'r cwestiynau trwy gydol y dasg. • Defnyddio'r wyntyll fel ffordd i ennyn cymorth drwy'r dasg.	• Grid asesu'r cynorthwywyr.

Atodiad 5

[redacted]Braf yw ei gweld wedi arbrofi gyda dulliau asesu ar gyfer dysgu e.e. paru, trafod, rhannu; ffyn lolipop; ffans asesu, wynebau gwyrdd, melyn a choch ac ati. Targedau: Parha i arbrofi gyda dulliau gwahanol o asesu ar gyfer dysgu. Mae ffyrdd newydd yn dod i'r amlwg o hyd! Gwna'n fawr hefyd o bwysigrwydd diweddglo pob gwers fel modd o asesu dealltwriaeth pob disgybl. [redacted]

Ffocws y wers fathemateg uchod oedd cyflwyno siapiau 3D. Wrth addysgu'r wers hon gyda'r dosbarth derbyn, mi fabwysiadais ar y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu ar gyfer dysgu (AagD) er mwyn ennyn cyfleoedd i ddatblygu hyder y dysgwyr i werthuso, llunio barn a gwella'u perfformiad, gyda'r ffocws ar nifer o wahanol ddulliau gwestiynu (wedi'u hamlygu). Penderfynais gynnwys amryw o ddulliau gwestiynu AagD er mwyn asesu dealltwriaeth y plant yn gyson a sicrhau datblygu ansawdd eu llafaredd a chynyddu eu hyder. Ceisiais ddefnyddio cwestiynau pwrpasol drwy hyrwyddo'r drafodaeth rhwng y dysgwyr a chaniatáu cyfle iddynt oll gyfrannu a meddwl (Llywodraeth Cymru, 2010, t.25). Datganwyd Llywodraeth Cymru (LIC) (2010, t.25) mai cwestiynu yw'r 'grym' tu ôl i ddatblygu meddwl ac AagD yn yr ystafell ddosbarth.

Sylwais fod Cyfaill Cŵl (Meddwl-paru-rhannu) yn gweithio'n dda gyda'r disgyblion wrth groesawu sgwrs rhwng y disgyblion cyn imi ofyn am eu hadborth. Wrth weithredu'r ffiniau lolipop, gwelais fod hyn yn cadw'r disgyblion yn effro am iddynt bryderu/cyffroi mai eu henw nhw fydd nesa. Sicrha hyn felly fod bob disgybl yn meddwl ar flaenau eu traed o hyd. Trosglwyddwyd y strategaeth bêl fasged elfen o hwyl i'r wers yn enwedig wrth ddechrau testun newydd, am i'r disgyblion gael y cyfle i ddewis eu ffrind o amgylch y carped, i ateb y cwestiwn nesaf, neu ymhelaethu ar yr un cwestiwn. Anogwyd y strategaeth hon imi dderbyn amryw o ymatebion ymhelaethus, yn hytrach nag un ateb caeedig, Sicrha', yn enwedig y ffiniau lolipop, i bob disgybl gael y cyfle i ateb ac ymateb. Fel y gwelir yn atodiad 4, cwestiynwyd 'pam' i'r plant yn gyson, sy'n fodd o annog trafodaeth barhaus rhwng disgybl ac athro, ac arwain at ddysgu effeithiol. Dywed Cambridge Assessment International Education (CAIE) (2019), wrth ennyn i'r dysgwyr ymhelaethu ar ei dealltwriaeth, gallwn asesu'n gliriach ac yn ddyfnach i'w dealltwriaeth ehangach a chywiro unrhyw gamddealltwriaeth. Sylweddolaf i ddysgwyr ateb yn wastadol gywir ond datblygir camddealltwriaeth wrth ymhelaethu'u cysyniadau.


Ymddangosodd, gynnwys amryw o ddulliau cwestiynu'n arbennig o fuddiol wrth gadw'r holl ddisgyblion yn effro ac yn ymrwymedig i'r testun, drwy orfodi iddynt feddwl drostynt hwy eu hunain gan wneud y dysgu a'r addysgu'n fwy diddorol. Sbarda'r dulliau hyn feddyliau'r plant, yn enwedig ar ddechrau'r wers. Serch hyn, fel


nodwyd yn fy adroddiad canol lleoliad (atodiad 5), byddai'n fuddiol imi wneud yn fawr o bwysigrwydd ddiweddglo bob gwers fel modd o asesu cynnydd a dealltwriaeth y dysgwyr. Nodwyd Ganske (2017) ,bwysigrwydd gloi'r wers â chwestiynau, gloywi'r hyn a ddeallodd a dysgodd y plant gan dderbyn darlun cliriach o'r hyn sydd angen gwella'n y wers ddilynol.

Efallai fyddai'n fuddiol pwyso a mesur y strategaethau yma, yn dibynnu ar y wybodaeth yr ydym eisiau e.e. caeedig neu agored. Sylweddolaf y byddai cadw'r strategaeth pêl fasged er mwyn asesu'r plant ar ddiwedd y wers yn ffordd ddibynadwy gan sicrhau y caiff bob plentyn gyfle i'w mewnbwn. Yn ogystal â hyn byddai'n fuddiol i mi glustnodi amser i'r dysgwyr feddwl yn annibynnol cyn mynd ati i drafod neu rannu. Er yr ymddengys y dysgwyr yn frwdfrydig, gan geisio plesio, wrth fwrw ati i drafod a datrys problemau eu hun, mae sicrhau'r amser iddynt feddwl yn hanfodol am iddo ganiatáu iddynt brosesu'r cwestiwn cyn ei hateb (CAIE, 2019).

Enghraifft ddarluniadol 2 – Hunanasesu

Monday, December 16, 2019 9:58 AM






Atodiad 8

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	♦ Galw i gof beth ydy siâp thrwy gwestiynu a defnyddio strategaeth y bêl fasged. ♦ Caniatáu amser i'r disgyblion drafod gyda'u cyfaill cŵl cyn atgoffa'r disgyblion beth yw siâp. ♦ Cyflwyno sut y adnabuwyd siâp (e.e. Siâp 2D). ♦ Esbonio beth sy'n arbennig am siâp 2D i helpu iddynt gofio (e.e. ei fod yn fflat). (Gofyn i'r plant ailadrodd yr hyn a ddwedwyd e.e. siâp 2D, a beth sy'n arbennig amdano...ei fod yn fflat). Asesu'r disgyblion wrth ofyn un wrth un i ambell ddisgybl ac yna gofyn i bawb ddangos bodiau. ♦ Esbonio beth yw ochr a chornel (defnyddio ffyn lolipop) ac asesu dealltwriaeth y disgyblion wedi imi esbonio gan ddefnyddio bodiau. ♦ Chwarae gêm fach gyflym – gêm y cardiau lliw (asesu dealltwriaeth y disgyblion wrth ofyn iddynt ddangos y garden sy'n cyd-fynd â'r ateb cywir ar y bwrdd gwyn) ♦ Rhannu mewn i grwpiau (os nad ydynt yn deall – aros ar y carped).	♦ Gwrando ac ymateb i beth ydy siâp drwy strategaeth y bêl fasged. ♦ Trafod gyda chyfaill cŵl beth yw siâp a'u briodoleddau ac yna rhannu syniadau. ♦ Ailadrodd yr athrawes er mwyn i bawb fod yn ganolog yn yr addysgu a'r dysgu. ♦ Defnyddio'u bodiau i ymateb os yr ydynt yn deall neu beidio. ♦ Ymateb beth yw ochr a beth yw cornel. ♦ Defnyddio'u bodiau i ymateb os yr ydynt yn deall neu beidio. ♦ Mynd i'w grwpiau (os nad ydynt yn deall – aros ar y carped).	♦ Pwynt Pŵer ♦ Siapiau plastig
Addysgu a Dysgu Craidd	Grŵp Glas ♦ Esbonio'r heriau: ♦ Cyn iddynt ddewis lle y maent am fynd i ddysgu asesu'r plant os maent yn deall y TAIR her gan ddefnyddio'u bodiau. ♦ Trwy gydol y tasgau gofyn i'r disgyblion "Siwt mae'n mynd..?" Her 1	Grŵp Glas ♦ Defnyddio bodiau i ymateb os ydynt yn deall y TAIR her. ♦ Dewis her. ♦ Pan ofynnai'r athrawes/cynorthwywraig "siwt mae'n mynd" ymateb gan ddangos bodiau a dweud y frawddeg sy'n cyfateb â'r ateb e.e. bodiau fyny, "ydw dwi'n deall". Her 1	♦ Twb twt ♦ *Pipe cleaners* ♦ Siapiau plastig ♦ Rhifau wedi'u lamineiddio. ♦ Geiriau ar y twb twt.

Atodiad 9

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	♦ Cyn cychwyn y wers dosbarthu'r gwyntyllau asesu i'r disgyblion, a gofyn sut y maent yn teimlo. (hapus, iawn, trist) ♦ Galw i gof beth ydy siâp 2D thrwy gwestiynu a defnyddio strategaeth y bêl fasged ♦ Esbonio bod siapiau 2D yn fflat. ♦ Cwestiynu'r plant gan ddefnyddio ffyn lolipop, beth yw ochr, cornel ac wyneb siâp. ♦ Atgoffa'r disgyblion beth yw ochr, cornel ac wyneb siâp. ♦ Cwestiynu'r dysgwyr gan ddefnyddio ffyn lolipop i esbonio'r gwrthrych 3D. ♦ Cyflwyno siâp 3D, a gofyn i'r plant weithio gyda chyfaill cŵl (Meddwl-paru-rhannu) i gynnig ac esbonio'r gwahaniaeth rhyngddo a siâp 2D. ♦ Dangos enghreifftiau i'r plant (e.e.. can, côn, dis, rolyn tŷ bach) defnyddio ffyn lolipop i ofyn i'r dysgwyr esbonio beth sydd yn y llun. ♦ Gofyn i'r disgyblion (gan ddefnyddio'u gwyntyllau asesu o'u blaen) os yr ydyn yn hapus ac yn deall yr hyn a drafodwyd ar y carped. ♦ Rhannu'r disgyblion mewn i grwpiau.	♦ Ymateb i sut y maent yn teimlo gan ddefnyddio'r gwyntyllau asesu. (hapus, iawn, trist) ♦ Ymateb – pasio'r bêl at rywun arall ar y carped er mwyn cael eu hadborth hwy. ♦ Gwrando ac ymateb beth yw ochr, cornel ac wyneb siâp. ♦ Esbonio'r gwrthrych 3D (gan ddefnyddio teimlad o wers flaenorol e.e. llyfn, pigog..) ♦ Gweithio gyda chyfaill cŵl i ddatrys problem. ♦ Esbonio beth sydd yn y llun. ♦ Defnyddio gwyntyllau asesu i ymateb os yr ydyn yn deall neu beidio. ♦ Mynd i'w grwpiau.	♦ Siapiau 3D. ♦ Gwrthrychau 3D. ♦ Pwynt Pŵer. ♦ Ffyn lolipop. ♦ Gwyntyllau asesu. ♦ Pêl
Addysgu a Dysgu Craidd	Grŵp Glas (digidol) ♦ Esbonio'r dasg. ♦ Sicrhau ei bod nhw'n deall y meini prawf llwyddiant, gofyn iddynt ddefnyddio'r gwyntyllau asesu i ymateb trwy gydol y dasg. ♦ Defnyddio ffyn lolipop (disgyblion o fewn y grŵp) i ddewis pwy sy'n newid y sleid. ♦ Atgoffa'r plant i ddefnyddio'r gwyntyllau asesu trwy gydol y dasg. ♦ Trafod beth yw bob gwrthrych, a bod bob siâp yn gallu fod o wahanol faint. ♦ Asesu ymateb y plant a'r siapiau a adnabuwyd wrth ddefnyddio'r grid asesu, er mwyn gweld pwy sy'n adnabod pa siâp yn hyderus. MAT ♦ Esbonio'r dasg. ♦ Sicrhau ei bod nhw'n deall y meini prawf llwyddiant, gofyn iddynt ddefnyddio'r gwyntyllau asesu i ymateb trwy gydol y dasg. ♦ Cwestiynu 'pam' i'r plant trwy gydol y dasg fel modd o gadw ffocws y dysgwyr ac i feddwl. ♦ Wrth i'r dysgwyr ymateb i'r cwestiynau, dylid llanw'r grid asesu gan ddilyn system yr ysgol (tic, tic â chylch a dotyn).	Grŵp Glas (digidol) ♦ Ymateb i'r meini prawf gan ddefnyddio'r wyntyll asesu. ♦ Ceisio cyfateb y gwrthrychau â'r siâp ar y sleid (ipad). ♦ Trafod beth yw bob gwrthrych, a bod bob siâp yn gallu fod o wahanol faint. ♦ Defnyddio'r wyntyll fel ffordd i ennyn cymorth drwy'r dasg yn gyfan. MAT ♦ Ymateb i'r meini prawf gan ddefnyddio'r wyntyll asesu. ♦ Defnyddio'r gwrthrychau a'r siapiau 3D i ddarganfod beth y gwnaed – rolio, stacio, llithro? ♦ Cofnodi'r canlyniad mewn tabl. ♦ Ychwanegu ambell enw yn hytrach na llun ar eu cardiau bingo. ♦ Ymateb i'r cwestiynau trwy gydol y dasg. ♦ Defnyddio'r wyntyll fel ffordd i ennyn cymorth drwy'r dasg.	♦ Siapiau 3D ♦ Taflenni bingo ♦ Tabl cofnodi ♦ Ipad ♦ Gwrthrychau 3D ♦ Gwyntyllau asesu. ♦ Ffyn lolipop ♦ Grid asesu'r cynorthwywyr.

Atodiad 10



Yn fy ngwersi mathemateg uchod gyda'r dosbarth derbyn, penderfynais dreialu nifer o wahanol strategaethau hunanasesu gyda'r dysgwyr (wedi'u hamlygu uchod) er mwyn fy nghynorthwyo i ddarganfod y ffordd orau o greu, cynnal a gwella fy arfer, fel bod y dysgwyr yn cyrraedd y safon uchaf gyda'r gefnogaeth a'r profiadau gorau posib iddynt hunan ddatblygu. Ffocws y gwersi yma oedd adfyfyrio ar siapiau 2D gan gychwyn adnabod siapiau 3D. Cydnabuwyd Ofsted (2011) pwysigrwydd hunanasesu fel rhan hanfodol o gylch adolygu a chynllunio parhaus dysgwyr. Adlewyrchwyd felly, fel offeryn pwysig i ganiatáu'r dysgwyr i grynhoi eu gwerthusiadau. Penderfynais fod y disgyblion am ddefnyddio gwyntyllau asesu (Gwyrdd – Dwi'n deall ac yn hapus i gychwyn â'r dasg, melyn – Dwi ddim yn sicr, mae angen ychydig o gymorth arna i, coch – O diar, dydw i ddim yn deall, mae angen cymorth arna i.) a bodiau (bodiau i fyny – dwi'n deall, bodiau i'r ochr – sai'n siŵr a bodiau lawr – o diar! Help plîs!), er mwyn imi eu hasesu ac er mwyn iddynt hwy hunanasesu eu dealltwriaeth. Cydnabyddir y strategaethau yma'n ffyrdd hawdd iddynt adlewyrchu eu cryfderau a'u gwendidau gan amlygu imi'r hyn sydd angen mynd i'r afael â er mwyn sicrhau gwelliant a chynnydd.


Sylwais fod y gwyntyllau asesu'n gweithio'n dda gyda'r dosbarth hwn am iddynt berchnogi eu dealltwriaeth ac asesu eu hunain. Anogwyd y dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu trwy ymgysylltu â'r dimensiynau gwybyddol ac affeithiol. Ni ellir athrawon ddysgu drostynt, mae angen i fyfyrwyr ddysgu drostynt hwy eu hunain sut i gyrraedd y cam nesaf wrth fewnoli'r broses a hunanasesu eu datblygiad (Mary James, 1998). Penderfynais ddefnyddio'r strategaeth hon yn fy ngwers fathemateg, am iddynt dderbyn llawer o wybodaeth wybyddol newydd, a fydd asesu eu hunan ddealltwriaeth yn hanfodo. Er mwyn sicrhau eu bod yn barod i barhau at ychwanegu mwy o wybodaeth at eu dealltwriaeth. Yn ogystal â hyn defnyddiais y strategaeth hon am ei fod yn fodd lle gall ddisgyblion ennyn cymorth arwahanol a chydnabod eu bod yn ei chael hi'n anodd.

Penderfynais ddefnyddio strategaeth y bodiau (atodiad 7) fel dull rhagweithiol am iddo ymgysylltu'r dysgwyr â'u hamcanion dysgu gan hyrwyddo gwytnwch, a'u harwain at wellhad. Ymddengys y strategaeth hon yn ffordd hawdd a chyflym i'r dysgwyr hunanasesu pe bawn yn deall neu beidio. Yn ogystal â hyn, ymddengys yn ffordd syml imi asesu'r holl ddisgyblion ar wastad wedi imi gyflwyno cerrig milltir bwysig iddynt, sy'n hanfodol iddynt ddeall wrth gwblhau'r tasgau a oedd i ddilyn. Mae hunanasesu yn galluogi dysgwyr i osod eu nodau dysgu eu hunain a chymryd cyfrifoldeb am eu haddysg eu hunain (CAIE, 2019). Efallai fyddai'n fuddiol imi gynnwys y ddwy strategaeth yma ar y cyd yn fy ngwersi. Byddai cadw'r gwyntyllau asesu ar gyfer asesu eu dealltwriaeth oddi ar y mat e.e. wedi imi gyflwyno'r meini prawf ac yn ystod y dasg, a chadw'r bodiau fel ffordd gyflym a syml i asesu eu dealltwriaeth ar y mat e.e. yn ystod cyflwyniad y wers ac wrth gloi. Yn ogystal â hyn, buddiol fyddai ystyried sut i dderbyn adborth yn dilyn yr hunanasesu yma er mwyn sicrhau nad yw'r disgyblion yn efelychu eu cyfoedion.


Enghraifft ddarluniadol 3 – adborth

Monday, December 16, 2019 9:58 AM


Atodiad 11



Grid Asesu Cynorthwywyr




Atodiad 12



Llyfr Asesu Cynnydd Tric a Chlic

Taflen clywed sŵn llythrennau

Atodiad 13



Atodiad 14

Mae wedi gwneud y mwyaf o fedru arsylwi arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen ac ymgymryd a chamau gweithredu yn dilyn yr arsylwadau. Mae wedi datblygu i fedru trefnu eu grwpiau dysgu yn llwyddiannus. Mae drefnus iawn o ran cynorthwywyr y dosbarth. Maent o hyd yn ymwybodol o beth sy'n ofynnol ohonynt yn ystod y gwersi. Mae Hanna wedi cynnal perthynas arbennig gyda chynorthwywyr y dosbarth a gweddill staff yr ysgol sydd wrthgwrs yn cael effaith gadarnhaol ar les ac addysg y dysgwyr. Mae o hyd yn brydlon ac yn broffesiynol yn ei gwaith. Mae engreifftiau o welliant yng nghanlyniadau'r dysgwyr e.e. wrth adnabod siapiau. Targedau: Parha i wneud ymchwil ar sut i gynnig profiadau go iawn ymaferol yn dy wersi.

Wrth addysgu unrhyw wers gyda'r dosbarth derbyn, ffocyswyd ar ennyn adborth cyson er mwyn datblygu cynnydd y dysgwyr a datblygiad personol. Mae adborth yn rhan hanfodol bwysig o'r broses AagD, wrth iddo gael effaith sylweddol ar ddysgu'r dysgwyr. Noda CAIE (2019), gall cynnig adborth i ddysgwyr eu helpu i deimlo cymhelliant gan ganlyni iddynt ymdrechu'n galetach yn nhasgau'r dyfodol. Fe ddisgrifiwyd gan Hattie (1999) fel "the most powerful single moderator that enhances achievement". Penderfynais weithredu dri dull cofnodi er mwyn cynnig adborth (clod a gwellhad) i'r dysgwyr. Wrth gyfeirio at atodiad 11, manteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio'r cynorthwywyr dosbarth er mwyn casglu adborth am bob dysgwr yn unigol. Cydnabyddir fod darparu adborth o ansawdd uchel i ddisgyblion yn rhan annatod o addysgu effeithiol am dyma'r 'pont' rhwng yr addysgu a dysgu (CAIE, 2019).

Drwy ddosbarthu grid asesu yr un i'r cynorthwywyr, galluogwyd imi gynnig adborth personol i bob unigolyn pe bawn ynghlwm neu ymhell o'r dasg. Yn ogystal â hyn, galluogwyd imi weld a datblygu'r hyn sy'n wan ar draws eu dealltwriaeth, a chlodfori'u llwyddiannau. Aseswyd y plant yn erbyn y meini prawf llwyddiant a glustnodwyd ar frig y daflen (gwelir atodiad 11) am mai dyma yr anelwyd iddynt ddysgu wrth weithredu'r dasg. Wrth ystyried sylwadau'r adroddiad canol lleoliad (gwelir atodiad 14) adlewyrchwyd y cydweithio positif gyda fy nghynorthwywyr wrth i'r mentor weld gwelliant yng nghanlyniadau'r dysgwyr. Penderfynais weithredu'r dull hwn am ei fod yn amhosibl imi asesu a chynnig adborth personol i bob disgybl, ym mhob gwers, sy'n hanfodol l'w datblygiad. Cydnabyddaf, bwysigrwydd trosolwg o ddealltwriaeth y plant, er mwyn fy ngalluogi i fynd i'r afael ag unrhyw gamddealltwriaeth yn syth, gan ddarparu'r lefel cywir o her a chymorth yng ngwersi'r dyfodol. Caniateir y dull hwn imi weld pa' elfennau o'r wers oedd yn heriol a pha' rannau yr amgyffredwyd. Wrth ennyn adborth gellir gweld ble maen nhw arni, ble yr

hoffent fod, a sut y medrwyd cyrraedd eu nod yn hwylus. Heb dderbyn yr adborth yma ni fedrir y dysgwyr na'r athro ddatblygu ymhellach.

Yn ystod sesiwn Tric a Chlic, cynlluniwyd tair tasg gyfnewidiol i'r plant, lle mae asesu cynnydd y dysgwyr er mwyn cynnig adborth yn angenrheidiol. Wrth ystyried hyn, pennwyd llyfr asesu yr un i'r cynorthwywyr gan benodi tasg iddynt reoli'n rheolaidd (gwelir atodiad 12). Penderfynais bennu tasgau penodol iddynt, er mwyn chaniatau iddynt adnewyddu'r tasgau yn ôl gofynion y dysgwyr. Am inni weithredu'r sesiynau hyn, awr bob dydd, roedd cynnig adborth I'r dysgwyr yn hollbwysig er mwyn iddynt ddatblygu o dydd i ddydd. Serch hyn, cynigwyd adborth ar lafar, yn syth i'r disgyblion gan benderfynu ar un disgybl o bob grŵp i symud eu henw i'r cylch aur, cyflyrrai Dweck (2006) dylid canmol determinasiwn, gwytnwch a gwaith caled y disgyblion gan eu hannog o hyd er mwyn eu harwain at lwyddiant. Gweithiodd hyn yn dda gyda'r dosbarth hwn, gan ddarparu adborth cyffredinol i bob ddysgwr a'r cyfle i ganmol eu gwaith a chynnig targed iddynt ar sut i wella eu dysgu (CAIE, 2019).

Aseswyd y dysgwyr yn y ddau ddull uchod gan ddilyn system asesu'r ysgol: tic – deall; tic â chylch – angen cymorth; dotyn – ddim yn deall. Caniataodd hyn imi dderbyn adborth clir a dibynadwy am i bawb weithredu'r un system cofnodion. Sicrha hyn imi fedru asesu'u dealltwriaeth yn syth ar ddiwedd bob gwers yn hytrach nag aros tan ddiwedd y dydd, gan alluogi imi ddatblygu cynlluniau ac addasu'r gwersi dilynol i gyfateb gofynion y dysgwyr.

Yn yr un modd, aseswyd cynnydd y plant wrth iddynt glywed sŵn llythrennau'r wyddor. Gweithredwyd yr asesiad hwn yn unigol i bob plentyn, unwaith yr wythnos. Am i'r dasg hon fod yn hanfodol i ddatblygiad y plentyn gweithredwyd adborth clywadwy a gweladwy er mwyn iddynt fod yn rhan o'r datblygiad. Drwy ddarparu dull asesu cyflym sef tic neu groes (gwelir atodiad 13) sicrhaodd i bob dysgwr dderbyn adborth a chlod gan sicrhau ddatblygiad. Penderfynais ddefnyddio'r dull hynod syml hwn yn hytrach na dilyn system asesu'r ysgol, am ei fod yn ffordd gyffrous/gweladwy i'r disgyblion ennyn adborth ac i weld ei hunan ddatblygiad. Dywed Carpenter (anhysbys, tud.1), "fun ways embeds the culture and helps pupils feel successful for their efforts and enjoyment of learning".

"Feedback is where the future learning begins and without it, assessment purely states where children are at in a point in time. Analysis of the assessment helps inform the required feedback and the learning steps for the students to achieve their goals" (McFadzien, 2015, tud.16) Rwy'n ymwybodol fod darparu adborth o ansawdd uchel i'r disgyblion yn ffodd annatod o ddatblygiad y dysgwr. Serch hynny, penderfynais ddefnyddio'r dulliau asesu yma er mwyn derbyn adborth i wella fy ffyrdd addysgu personol gan sicrhau datblygiad yng ngwaith y dysgwyr. Fodd bynnag, gan ystyried oedran fy nisgyblion, teimlaf fod y modd o grynhoi'r adborth, wrth weithredu gwellhadd yn fy ngwersi'n fwy o fudd iddynt nag adborth unigol cyson. Noda McFadizen (2015, tud.16), "feedback is not strictly assessment, it is the essential element in turning assessment into a tool for future learning".


Byddai'n fuddiol imi ystyried trosglwyddo adborth dyfnach i ambell ddisgybl yn enwedig y disgybl(ion) MAT er mwyn iddynt hunan ddatblygu a myfyrio'r hyn a ddywedasant wrthynt. Yn yr un modd, bwriadir cyffredinoli'r adborth a'u hadrodd i'r plant ar ddiwedd y wers gan dawelu unrhyw bryder sydd ganddynt. Byddai hefyd yn fuddiol imi ystyried gweddu'r system DOJO er mwyn hybu'r plant i ddatblygu'n annibynnol ac yn ddibynnol ar determinasiwn personol.

Enghraifft ddarluniadol 4 – Llythrennedd

Monday, December 16, 2019 9:51 AM


Atodiad 15

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	♦ Galw i gof pa liwiau mae ... a ... (2 liw) yn creu. ♦ Atgoffa'r plant ein bod wedi arbrofi gan ddefnyddio paent a ni oedd yn gwneud y newid. (asesu eu dealltwriaeth) ♦ Egluro fod yn bosib i'r newid hyn ddigwydd yn annibynnol (neu gan ddefnyddio dŵr). ♦ Esbonio'r arbrawf. ♦ Cwestiynu'r disgyblion pa' offer y maent yn credu bydd angen i wneud yr arbrawf. ♦ Cwestiynu'r dysgwyr ar ba dymheredd (oer/poeth) sydd angen y dŵr i fod i doddi'r gragen llw. ♦ Danfon y plant i'w grwpiau.	♦ Ymateb, pa liw sy'n cael ei greu. ♦ Rhannu'r wybodaeth y maent yn cofio o ddefnyddio'r paent. ♦ Deall ac ymateb fod gwahanol ffyrdd o greu lliwiau. ♦ Defnyddio brawddegau syml i ymateb i ba' offer sydd angen i gynnal yr arbrawf. ♦ Defnyddio geiriau i ymateb i ba' dymheredd o ddŵr sydd angen i doddi'r gragen. ♦ Mynd i'w grwpiau.	♦ Cardiau cymysgu lliw. ♦ Jwg mesur ♦ Dwr weddol boeth. ♦ M&ms ♦ Plât bach gwyn (3 yr un maint) ♦ Cynllun lliw i'r m&ms.
Addysgu a Dysgu Craidd	♦ TYNNU LLUNIAU O'R CANLYNIADAU ♦ O fewn y grwpiau: ♦ Cwestiynu gan geisio atgoffa'r disgyblion o'r offer sydd angen. ♦ Egluro'r offer. ♦ Egluro fod angen dilyn cynllun lliw i osod y m&ms, egluro tra iddynt wneud hyn i esbonio'u hoff liw a'u cas liw a pham (modelu hyn i'r plant). ♦ Egluro fod angen mesur y dŵr 20ml (defnyddio ffyn lolipop i ddewis pwy y gwnaiff hyn). ♦ Egluro sut i weithredu'r arbrawf + beth sydd angen iddynt gadw llygaid amo er mwyn cofnodi'r canlyniad. ♦ Tacluso. ♦ Crynhoi'r plant nol i'r carped i gwestiynu'r canlyniadau.	♦ O fewn y grwpiau: - Dangos eu bod wedi bod yn gwrando ar eraill. - Ymateb gan ddefnyddio geiriau i esbonio'r offer. - Dilyn cynllun i osod yr m&ms, rhyngweithio gydag eraill i wneud hyn. Wrth wneud hyn dweud beth yw eu hoff liw a'u cas liw a pham. - mesur 20ml o ddŵr. - Gweithredu'r arbrawf, gan ymateb gyda brawddegau syml + deall beth sydd angen cadw llygaid amo. - Cofnodi'r canlyniadau. ♦ Tacluso. ♦ Nol i'r carped i drafod y canlyniadau.	♦ Tablau canlyniadau. ♦ m&ms
Sesiwn Gloi	♦ Defnyddio'r lluniau a'r bwrdd gwyn i gwestiynu pa 2 liw sy'n creu ... ♦ Dangos gwahanol arbrofion ar y bwrdd gwyn sy'n gweithredu'r un peth. ♦ Asesu'r plant gyda bodiau.	♦ Ymateb i'r cwestiynau/ gofyn cwestiynau os nad ydynt yn deall. ♦ Adnabod lluniau ar y sgrin a deall eu hystyr.	♦ Lluniau o'r arbrawf (ar y bwrdd gwyn).









Atodiad 20

Siarada[illegible] iaith Gymraeg safonol a naturiol iawn. Mae o hyd yn dysgu geirfa newydd i ddisgyblion y dosbarth ac yn sicrhau eu dealltwiraeth o'r geiriau. Wrth iddi glywed disgyblion o fewn y dosbarth neu ar hyd yr ysgol yn cam ddweud brawddegau o ran strwythur; gwelir hi'n aml yn eu hail ddweud ac yn annog y disgyblion i wneud hynny hefyd.

Atodiad 21

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	♦ Cydgyfri' i 40 gyda'r plant. ♦ Egluro'r cysyniad a'r symbol – tynnu. ♦ Egluro a chreu enghreifftiau gyda'r disgyblion. (dewis y plant ar hap) ♦ Defnyddio pyped fel symbol help i'r plant. ♦ Defnyddio'r pyped er mwyn creu'r cysyniad yn fwy gweledol (e.e. pyped yn bwyta'r afalau). ♦ Asesu'r plant wrth ddefnyddio bodiau.	♦ Cydgyfri' i 40. ♦ Deall ac ymateb i'r cysyniad a'r symbol – tynnu. ♦ Ymestyn eu llefaredd wrth helpu'r pyped. ♦ Ymateb i'r pyped a'r hyn a welwyd. ♦ Ymateb i'r enghreifftiau.	♦ Bwrdd gwyn rhyngweithiol. ♦ Pyped.

Wrth ymgymryd â gofynion llythrennedd ar draws y cwricwlwm, galluogwyd i'r disgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol a llwyddiannus, drwy godi canlyniadau'r dysgu ar draws y meysydd dysgu a phrofiad (MDaPh) (Donaldson, 2015). Ymgymerwyd â'r cyfle i gynnwys llythrennedd yn ganolog yn fy ngwersi, gan ddarparu blociau adeiladu, ar gyfer llwyddiant yn nyfodol y dysgwyr (Education Endowment Foundation, 2017). Penderfynais fabwysiadu'r cyfle i groesawu llythrennedd yn fy ngwersi gan ymglymu datblygiad, dyfalbarhad a mwynhad ac uniaethu'r dysgwyr â datblygiadau'r dyfodol. Teimlaf y plethwyd llythrennedd yn naturiol ac yn ddiffuant yn fy ngwersi 'pwnc' gan bwysleisio ar agweddau personol, cymdeithasol ac economaidd. Fel yr amlygwyd yn y Curriculum For Excellence (CFE) (anhysbys(a)) gorweddai eu gallu i ddefnyddio iaith, wrth wraidd mynegiant eu hemosiynau, eu meddwl eu dysgu a'u hymdeimlad o hunaniaeth bersonol.

Wrth addysgu'r wers gwyddoniaeth uchod i'r dosbarth derbyn, mi fabwysiadais ar y cyfle i briodi sgiliau iaith â sgiliau gwyddonol gan annog y dysgwyr i gymhwyso llythrennedd mewn gweithgareddau ar draws eu diwrnod dysgu (wedi'u hamlygu uchod). Disgrifiai Llywodraeth Cymru (2013, tud.16) llythrennedd, fel cyfres o sgiliau, gan gynnwys; siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu sy'n galluogi'r dysgwyr wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas. Ceisiaf ffocysu ar strategaethau addysgu craidd, gan geisio datblygu a gwella llythrennedd y dysgwyr ar draws wahanol MDaPH. Manteisiwyd ar y cyfle yn y wers hon i ddatblygu'u hiaith lafar, cystrawen sillafu a'u dealltwriaeth, drwy ddarllen. Yn yr ystyr hwn, ymestynnid a chryfhawyd eu dealltwriaeth wyddonol, wrth briodi'r sgiliau'n ddyfnach i'r pwnc, gwyddoniaeth gan gynnig cyfle gwych iddynt fabwysiadu dyfnder gwybyddol ac ennyn eu diddordeb.

Wrth addysgu'r wers fathemateg uchod, penderfynais liwio iaith y dysgwyr drwy'r defnydd o byped (jac-y-do). Manteisiais ar y cyfle i ddefnyddio'r pyped i arwain y dysgu a thrwy hyn ceisiwyd annog sgiliau llafar a gwrando yn ganolog. Cydnabyddir pwysigrwydd siarad a thrafod ac fe'u gweithredwyd yn fy ngwersi drwy annog y disgyblion i ail-adrodd yr hyn a ddywedai Jac-y-do. Wrth weithredu'r elfen ailadroddus yn rheolaidd sicrhawyd i'r wybodaeth mewnblannu yn nhwf ddealltwriaeth y dysgwyr, yn ogystal ag ychwanegu elfen o hwyl a chyffro i'r wers. Yn gyfatebol i hyn, ymddengys i'r disgyblion fabwysiadu cynnydd o'r iaith gan adeiladu cysylltiad rhwng delweddau storïol a ffocws y wers bynciol (Estyn, 2018).

Croesawyd llythrennedd yn ganolog yn fy ngwersi thema/heriau, drwy arbrofi ac annog cyfleoedd i'r dysgwyr egluro'u meddyliau, trafod eu syniadau a darllen ac ysgrifennu ar lefel datblygedig a fydd o gymorth iddynt yn y dyfodol (CFE, anhysbys(b)). Cydnabyddir hyn, wrth edrych ar y lluniau atodiedig ar y dde, adlewyrchwyd llythrennedd canolog, gan ddatblygu'u geirfa, dealltwriaeth a'u synnwyr cyffredinol ar draws y MDaPh.

Wrth drosolygu'r fframwaith llythrennedd byddai'n fuddiol petawn yn amlygu i'r plant pwysigrwydd briodi'r elfen lythrennol i'w gwersi. Sylweddolaf fod cymhwyso hyder mewn elfennau llythrennedd yn hanfodol ar gyfer datblygiad y gwaith yn ogystal â'r unigolyn. Cydnabyddir fel darpar athro mae gennyf gyfrifoldeb i hyrwyddo'r datblygiad hwn yn llwyddiannus ac yn hyderus i bob disgybl (CFE, anhysbys(a)). Wrth gydnabod hyn, byddai'n fuddiol imi fewnblannu sgiliau llythrennedd yn fy ngwersi'n barhaol gan sicrhau buddion a datblygiad personol, rhyngbersonol a gweithio mewn tîm sy'n hollbwysig yng nghorff bywyd yr ysgol.

Enghraifft ddarluniadol 5 - Rhifedd

Monday, December 16, 2019 10:25 AM

Gwers Creadigol Kandinsky Atodiad 22

Amser	Gweithgareddau/ Methodoleg/ Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad I echyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	• Dangos llun kandinsky i'r plant a gofyn beth y gwelsant yn y llun. • "Pan mae Miss yn dweud ei bod hi'n oer, pa' liwiau ydych ch'n meddwl am…?" • Pan mae Miss yn dweud ei bod hi'n gynnes, pa' liwiau ydych ch'n meddwl am…?" • Dangos lluniau oer i'r plant a gofyn sut y maent yn teimlo wrth edrych ar y llun (Defnyddio ffyn lolipop). • Dangos lluniau cynnes i'r plant a gofyn idynt sut y maent yn teimlo. • Dangos olwyn liw iddynt gan egluro pa' liwiau sy'n gynnes a pa' liwiau sy'n oer. • Mynd yn ôl i lun Kandinsky a gofyn iddynt nawr beth y maent yn gweld gan ffocysu ar ambell ddarn yn benodol. • Esbonio iddynt gofnodi eu teimladau drwy lun.	• Ymateb gan egluro pam a sgiliau mathemategol blaenorol (e.e. cylch, sgwâr). • Dyfalu sut mae Miss yn teimlo pan ddywedai rhyw gysyniad. • Ymateb/ mesur sut y teimlwyd wrth edrych ar y llun. • Dweud eu barn, pan yr wyf yn gofyn. • Ymateb i'r llun gan ddefnyddio'r hyn y dysgant yn ystod y cyflwyniad. • Ymateb gan ddefnyddio'u hemosiynau.	• Pwynt pŵer.
Addysgu a Dysgu Craidd	• Cyn cychwyn – atgoffa'r plant i beintio gan symud fr un cyfeiriad (modelu hyn i'r plant). MAT • Esbonio iddynt gyfateb cŵhwech sgwâr o'r llun gan ddidoli liwiau oer a chynnes. Grŵp Coch • Esbonio iddynt gyfateb cŵhwech sgwâr o'r llun gan benderfynu ar naill ai liwiau oer neu gynnes ym mhob sgwâr (gan ddidoli pa liw sy'n perthyn i ba gategori). Grŵp Glas • Esbonio iddynt gyfateb pedwar sgwâr o'r llun gan benderfynu ar naill ai liwiau oer neu gynnes ym mhob sgwâr (gan ddidoli liwiau i wahanol gylchoedd). • Sicrhau iddynt weithio ar gyfateb un sgwâr ar y tro. Grŵp Gwyrdd Her 1 • Esbonio iddynt gyfateb un sgwâr o'r llun gan benderfynu ar naill ai liwiau oer neu gynnes ym mhob sgwâr (gan ddidoli liwiau i wahanol gylchoedd). • Cyflwyno 'cylch' iddynt er mwyn eu helpu. Her 2 • Esbonio iddynt osod pegiau yn y bwrdd pegiau bach gan benderfynu ar naill ai liwiau cynnes neu oer.	• Cofnodi eu teimladau/ emosiynau drwy lun. MAT • Creu a pheintio cylchoedd unigol o fewn cŵhwech sgwâr gan gyfateb a ddodi liwiau oer a chynnes. • Adnabod y camau i gwbl hau'r dasg. • Deall fod angen i bob cylch fod yn fwy na'r un blaenorol. Grŵp Coch • Creu a pheintio cylchoedd unigol o fewn cŵhwech sgwâr o'r llun gan benderfynu ar naill ai liwiau oer neu gynnes ym mhob sgwâr gan ddidoli liwiau i wahanol gylchoedd. • Adnabod y camau i gwbl hau'r dasg. Grŵp Glas • Creu a pheintio cylchoedd unigol o fewn pedwar sgwâr o'r llun gan benderfynu ar naill ai liwiau oer neu gynnes ym mhob sgwâr gan ddidoli liwiau i wahanol gylchoedd. • Un ar y tro. • Adnabod y camau i gwbl hau'r dasg. Grŵp Gwyrdd Her 1 • Creu a pheintio cylchoedd unigol o fewn un sgwâr o'r llun gan benderfynu ar naill ai liwiau oer neu gynnes ym mhob sgwâr gan ddidoli liwiau i wahanol gylchoedd. • Adnabod y camau i gwbl hau'r dasg. • Defnyddio'r cylch plastig i ddatrys eu problem a chreu amlinelliad. Her 2 • Gosod y pegiau yn y bwrdd pegiau gan benderfynu ar liwiau oer neu gynnes. • Adnabod y camau i gwbl hau'r dasg.	• Papur • Paent (6 liw) • Brwsh • Pensiliau • Pegiau bach • Byrddau'r pegiau liw.

Arbrawf m&ms Atodiad 24


Addysgu a Dysgu Craidd	• TYNNU LLUNIAU O'R CANLYNIADAU • O fewn y grwpiau: • Cwestiynu gan geisio atgoffa'r disgyblion o'r offer sydd angen. • Egluro'r offer. • Egluro fod angen dilyn cynllun lliw i osod y m&ms, egluro tra iddynt wneud hyn i esbonio'u hoff liw a'u cas liw a pham (modelu hyn i'r plant). • Egluro fod angen mesur y dŵr 20ml (defnyddio ffyn lolipop i ddewis pwy y gwnaiff hyn). • Egluro sut i weithredu'r arbrawf + beth sydd angen iddynt gadw llygaid arno er mwyn cofnodi'r canlyniad. • Tacluso. • Crynhoi'r plant nol i'r carped i gwestiynu'r canlyniadau.	• O fewn y grwpiau: - Dangos eu bod wedi bod yn gwrando ar eraill. - Ymateb gan ddefnyddio geiriau i esbonio'r offer. - Dilyn cynllun i osod yr m&ms, rhyngweithio gydag eraill i wneud hyn. Wrth wneud hyn dweud beth yw eu hoff liw a'u cas liw a pham. - Defnyddio geiriau i ymateb i ba' dymheredd o ddŵr sydd angen i doddi'r gragen. - mesur 20ml o ddŵr. - Gweithredu'r arbrawf, gan ymateb gyda brawddegau syml + deall beth sydd angen cadw llygaid arno. - Deall fod toddi yn cymryd amser. - Cofnodi'r canlyniadau/ casgliadau drwy ddefnyddio marciau. • Tacluso. • Nol i'r carped i drafod y canlyniadau.	• Tablau canlyniadau. • m&ms

Helfa drysor Elfed (2) Atodiad 23


Amser	Gweithgareddau/ Methodoleg/ Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad I echyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	• Chwarae gêm Gogledd, De, Dwyrain, Gorllewin. • Elfed yn cyflwyno'r wers wrth ddefnyddio *ChatterPix* (gan ddatgan ei fod ar goll). • Rhaid iddynt gwblhau'r helfa erbyn ddiwedd y wers. • Elfed (trwy *ChatterPix*) yn gofyn cwestiynau i wahanol blant. (meddwl, paru, rhannu). • Elfed (trwy *ChatterPix*) yn gofyn am help wrth y plant am ei fod ar goll. • Elfed (trwy *ChatterPix*) yn dweud wrth y plant (trwy faen prawf) i ddosbarthu gwrthrychau sydd angen arnynt ar y daith (gan ddilyn maen prawf Elfed). • Elfed (trwy *ChatterPix*) yn gosod cyfarwyddiadau i'r plant er mwyn ei ddarganfod. • Creu cyfarwyddiadau geiriol syml ar y cyd er mwyn iddynt gofio tra ar y daith.	• Chwarae gêm Gogledd, De, Dwyrain, Gorllewin. • Dilyn ymholiadau Elfed. • Deall faint o amser sydd ganddynt i ddarganfod Elfed. • Ystyried sut mae Elfed yn teimlo am ei fod ar goll. • Dosbarthu gwrthrychau sydd angen arnynt i fynd ar y daith. • Gwrando ar ddilyniant o gyfarwyddiadau er mwyn darganfod Elfed. • Defnyddio'u dealltwriaeth i fesur camau a pellter. Gan osod problem e.e. 1 yn fwy na 5 cam…i gyfeiriad penodol. • Creu cyfarwyddiadau geiriol ar y cyd er mwyn cofio tra ar y daith.	• Pwynt Pŵer. • *ChatterPix*
Addysgu a	• Esbonio, bydd bob grŵp yn dilyn llwybr gwahanol i geisio darganfod Elfed.	MAT • Arwain y grŵp ar adegau gan wneud	•







Cofnodi Canlyniadau



Atodiad 28

Yn yr un modd, mae rhifedd, manteisiais ar y cyfle i briodi sgiliau mathemateg gyda sgiliau iaith, creadigol, a gwyddonol wrth weithredu sgiliau r a thrin data. Paratowyd hyn y dysgwyr i ddysgu a gweithio'n annibynnol gan berchnogi dealltwriaeth a chryfhau eu sgiliau ar draws gwahanol M Pwysleisiwyd LIC (2019) ar bwysigrwydd ymgysylltu profiadau rhifedd a'u gwneud mor ddeniadol, cyffrous a hygyrch â phosib i ddysgwyr, gan s datblygiad gwydn mathemategol. Cyfrannai'r datblygiad o wytnwch mathemategol at ddatblygiad dysgwyr i fod yn uchelgeisiol a galluog (Donal 2015). Rhaid nodi, wrth addysgu'r dosbarth derbyn sylwaf fod dysgu trwy chwarae yn elfen bwysig yn natblygiad eu sgiliau rhifedd wrth iddo allu dysgwyr i ddatrys problemau, archwilio syniadau, sefydlu cysylltiadau, chydweithio ag eraill yn ogystal â gweithredu annibyniaeth (LIC, 2019).

Wrth gydweithio gyda'r dosbarth derbyn ar greu replica o waith celf *Kandinsky*, teimlaf y treiddiwyd yr elfen rhifedd yn naturiol ac yn ddiffuant i'r wrth iddynt orfod adnabod siapiau a chyfri nifer er mwyn cyrraedd nod y wers. Llwyddai'r plant briodi eu sgiliau mathemategol blaenorol, a'u wei yng ngwaith creadigol. Drwy hyn medr y plant ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol ac annibynnol gan hybu iddynt gysylltu sgiliau er mwyn datrys problemau sydd i ddod (Donaldson, 2015). Wrth blannu rhifedd yn naturiol yn fy ngwersi, adlewyrchwyd cynnydd yn hyder y plant wrth ymdrin hollol groes i sgiliau'r 'pwnc' presennol. Penderfynais weithredu rhifedd yn y wers hon am i nifer o blant bryderu wrth fynychu gwersi 'mathemate Ymgeisiais felly gynnwys rhifedd mewn modd hwylus er mwyn ceisio dileu'r pryder hwn, drwy gynnwys rhywbeth hollol anarferol a sensitif, yng gweithgaredd e.e. mesur sut y teimlant.

Mae dilyn cyfarwyddiadau/cynllun yn rhywbeth a wnâi plant yn rheolaidd ac yn ddyddiol ond yn ddiarwybod iddynt. Ond wrth ystyried y tair gwer mae'n debyg fod ennyn y plant i ddilyn cyfarwyddiadau/cynllun clywadwy neu weladwy yn cynyddu eu sgiliau meddwl a chyfathrebu am iddynt e yn heriol. Gofynnai nifer o dasgau â sgiliau rhifedd am gydgysylltiad llaw a llygaid da gan orfodi iddynt dalu sylw'n gyson (gwelir atodiad 28). Wr addysgu'r wers gwyddoniaeth (gwelir atodiad 24/27), argyhoeddwyd imi sut y gweithredwyd rhifedd ym mywyd bob dydd. Wrth l'r plant fesur 20 mewn i jwg, sicrha hyn gynnydd yn eu dealltwriaeth a'u storfa wybodaeth gyffredinol gan eu paratoi ar gyfer y dyfodol. Wrth ymgymryd â'r arbra (gwelir atodiad 24), gwelaf adlewyrchiad dwfn o'r briodas rhwng y sgiliau mathemategol a'r sgiliau gwyddonol. Addysgwyd y plant, drwy gynnal fod mesur ac amseru'n sgiliau hanfodol pwysig er mwyn llwyddo, e.e. er mwyn i hydoddiant ddigwydd mae mesur y dŵr a'i dymheredd yn ogyst aros dros amser penodol yn hanfodol er mwyn i'r arbrawf lwyddo. Cydnabyddir fod plethu'r sgiliau yma yn feddyliau'r plant yn heriol ac efallai fy fuddiol imi feddwl am arbrawf sy'n gweithredu'r sgiliau ar wahân yn gyntaf. Wedi dweud hynny, ni fodolai'r arbrawf heb y briodas rhwng sgiliau'r

faes a sicrha y datblygir y disgyblion ar draws nifer o MDaPh ar yr un pryd. Penderfynais gynnwys yr elfen amser a'r pwysigrwydd o 'aros', am f 'amser' yn weithred angenrheidiol sydd angen ar blant trwy gydol eu hoes, ac mi adlewyrchodd fel llwyddiant. Ymdriniaf â'r sgil hwn hefyd yng n 'helfa drysor Elfed', lle'r oedd yn ofynnol i'r dysgwyr ddilyn cyfarwyddiadau er mwyn datrys problem mewn cyfyngder amser. Penderfynais osod penodol iddynt am dyma y dihoenai ei diwrnod ohono. Cydnabyddir i holl weithredoedd y dosbarth ddigwydd o fewn cyfyngder amser. Felly, drw rhifedd â MDaPh eraill, sicrhawyd i'r plant ddatblygu ac ymgyrchu'u sgiliau dyddiol yn hyderus ac yn wybodus.

Fodd bynnag, teimlais fod gweld a manteisio ar gyfleoedd i gysylltu elfennau o fewn gwers â sgiliau rhifedd, heb eu cynllunio, yn heriol. Sylwed wastraffwyd nifer o gyfleoedd i blannu hadyn a oedd yn gysylltiedig â rhifedd, o ganlyniad i ddiffyg hyder mewn ambell bwnc penodol e.e. gwyd Byddai'n fuddiol i mi felly ymchwilio'n ddyfnach i'r pwnc cyn ei gyflwyno gan sicrhau fy mod yn cynllunio yn bleth â sgiliau rhifedd. Er imi gydnab broses naturiol o gynnwys rhifedd yn fy ngwersi sy'n gweithio orau, tueddir i flaenoriaethu sgiliau'r 'pwnc' a cholli plethiad a phwysigrwydd cysyll trawsgwricwlaidd.

Enghraifft ddarluniadol 6 – Cymhwysedd Digidol

Monday, December 16, 2019 10:26 AM

Taith y byd o liw tu allan Atodiad 29

Amser	Gweithgareddau/ Methodoleg/ Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad i echyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	♦ Galw i gof yr hyn mae'r plant yn cofio o rhan beth sydd o ba liw. ♦ Chwarae gêm gyda'r plant (y gadair goch) – "gallwch fy mwyta, dwi'n drwyn ar ddyn eira...beth ydw i? a pha' liw ydw i?" ♦ Tra'n chwarae'r gêm cynorthwywyr i gymryd plant i ymarfer tynnu llun a recordio ar yr ipad. ♦ Sicrhau fod bob plentyn yn deall sut i dynnu llun ar ipad. ♦ Sicrhau eu bod yn deall fod llun i fod yn ganolog o fewn y sgrin. ♦ Atgoffa'r plant i ganolbwyntio ar y pethau sydd yr un lliw o hyd. ♦ Creu arweiniad ar y cyd ar y bwrdd gwyn i arwain y plant. ♦ Rhannu'r plant i grwpiau i fynd ar daith y byd o liw.	♦ Ymateb i'r cwestiynnau. ♦ Meddwl am liw a gwrthrych a mynd i'r gadair goch yn eu tro i argyhoeddi hyn. ♦ Ymarfer tynnu llun a recordio'r gêm ar yr ipad. ♦ Helpu gan ymateb i greu arweiniad. ♦ Mynd i'w grwpiau i fynd ar daith y byd o liw.	♦ Bwrdd gwyn rhyngweithiol. ♦ Ipad

Helfa drysor Elfed Atodiad 30

Amser	Gweithgareddau/ Methodoleg/ Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad i echyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	♦ Elfed yn cyflwyno'r wers wrth ddefnyddio *ChatterPix* (gan ddatgan ei fod ar goll). ♦ Elfed (trwy *ChatterPix*) yn gofyn cwestiynau i wahanol blant. (meddwl, paru, rhannu). ♦ Elfed (trwy *ChatterPix*) yn gofyn am help wrth y plant am ei fod ar goll. ♦ Elfed (trwy *ChatterPix*) yn dweud wrth y plant (trwy faen prawf) i ddosbarthu gwrthrychau sydd angen arnynt ar y daith. ♦ Elfed (trwy *ChatterPix*) yn gosod cyfarwyddiadau i'r plant er mwyn ei ddarganfod. ♦ Creu cyfarwyddiadau geiriol syml ar y cyd er mwyn iddynt gofio tra ar y daith.	♦ Dilyn ymholiadau Elfed. ♦ Ystyried sut mae Elfed yn teimlo am ei fod ar goll. ♦ Dosbarthu gwrthrychau (ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol) sydd angen arnynt i fynd ar y daith. ♦ Gwrando ar ddilyniant o gyfarwyddiadau er mwyn darganfod Elfed. ♦ Creu cyfarwyddiadau geiriol ar y cyd er mwyn cofio tra ar y daith.	♦ Pwynt Pŵer. ♦ *ChatterPix*
	• Esbonio, bydd bob grŵp yn dilyn llwybr gwahanol i geisio darganfod Elfed.		

Creu Llyfr Lliwiau Atodiad 31

Addysgu a Dysgu Craidd	♦ Gosod y dasg – rhoi papur plaen i'r disgyblion, gofyn iddynt dynnu llun. ♦ Modelu – disgrifiad o'r llun. ♦ Cynnig ffynonellau ymchwil i'r plant er mwyn iddynt gael promt ac archwilio lluniau (e.e. llyfrau, Ipad, cyfrifiadur ayyb) * I'r rhai a benderfynwyd defnyddio ffynhonnell dechnolegol – sicrhau eu bod yn deall peryglon y we a beth sy'n ddiogel iddynt fynd arno. Grŵp Gwyrdd • Dweud wrthynt am ddefnyddio gwyntyllau asesu i ymateb i'r meini prawf. ♦ Gofyn iddynt fynd i estyn Ipad yr un (neu rhwng pâr os dymunwyd). ♦ Arwain nhw i'w hwb personol – gan roi ychydig o gymorth iddynt i [illegible]. ♦ Esbonio iddynt dynnu llun o'u gwrthrych dewisol ar hwb.(gallwent hefyd neu'n unigol ar y gwaith). ♦ Sicrhau eu bod yn dilyn y rheolau [illegible]. ♦ Atgoffa'r plant sut i [illegible]. ♦ Wedi iddynt gwblhau – cynnig cymorth i [illegible].	♦ Penderfynu ar liw. ♦ Penderfynu ar ba lun i dynnu. ♦ Ysgrifennu disgrifiad o'r llun. ♦ Manteisio ar y cyfle i ddefnyddio ffynhonnell ymchwil fel cymorth i dynnu llun. * I'r rhai a benderfynwyd defnyddio ffynhonnell dechnolegol – deall peryglon y we, a deall yr hyn sy'n ddiogel iddynt gyrchu. Grŵp Gwyrdd • Defnyddio gwyntyllau asesu i ymateb i'r meini prawf. • Estyn Ipad yr un neu rhwng pâr. • [illegible] • Tynnu llun o'u gwrthrych dewisol [illegible] neu'n unigol. • Sicrhau bod e llun yng nghanol e sgrin. • [illegible] y gwaith yn rheolaidd.	♦ Pensiliau lliw ♦ Papur A5 ♦ Pensiliau ♦ Byrddau gwyn ♦ Ipad (digon i'r grŵp gwyrdd). ♦ Gwyntyllau asesu.





ChatterPix

Fel y nodwyd Donaldson (2015, t.40), chwaraeai Cymhwysedd Digidol rhan gynyddol ym mywydau plant a phobl ifanc, drwy gyfathrebu, rhwydweithio, gwybodaeth, hamdden ac adloniant. Fel y gwelwch uchod, ceisiaf sicrhau fy mod yn ei gynnwys ym mhob gwers lle y bo' modd, am mai dyma yw'r dyfodol. Mae'r gallu i ddefnyddio sgiliau technoleg ddigidol yn fwyfwy cyffredin erbyn heddiw ac mae meithrin y sgiliau dyfnach hynny yn angenrheidiol. Wrth edrych ar wers y dosbarth derbyn, 'taith y byd o liw', mae caniatáu iddynt ddatblygu'r sgil o dynnu lluniau'n ennyn eu diddordeb ac yn angenrheidiol i'w dyfodol wrth i'n byd ddatblygu. Medrir croesawu'r defnydd o ffotograffau a fideo fel modd iaith iddynt gyfathrebu, dychmygu a dehongli straeon (LIC, 2019). Yn ystod y wers hon, wrth ddadansoddi ffotograffau (o wrthrychau y cymerwyd yn ganiatáol o ddydd i ddydd), dysgodd y plant, nad yw pethau o hyd fel yr ymddangosant ar yr arwyneb. Profwyd hyn felly y gellir ymdrin â chymhwysedd digidol o wahanol safbwyntiau (Donaldson, 2015).

Wrth gyfeirio at wers 'helfa drysor Elfed', galluogodd cyflwyno'r wers drwy *ChatterPix* imi agor drws dechnoleg hollol newydd i'r plant. Drwy weithredu hyn, cafwyd y cyfle i ddatblygu sgiliau newydd ac arbrofi â'r byd tu hwnt i realiti - animeiddiad. Penderfynais groesawu'r elfennau hyn am nad oeddwn yn gyfforddus â thechnoleg yn bersonol, caniateir hyn imi, ddysgu a myfyrio sgiliau digidol newydd. Am nad oeddwn yn hyderus yn y maes hwn, ceisiaf annog y dysgwyr i fod yn ganolog wrth arbrofi ag elfennau technolegol newydd er mwyn iddynt ddatblygu hyder a mwynhad. Yn ogystal â hyn, croesawaf nifer o sgiliau cymhwysedd digidol drwy arbrofi ar y cyd gyda'r disgyblion a blaguro ystyr a fformatau gwahanol, i greu, cydweithredu a chyfathrebu'n effeithiol drwy ddatblygu dealltwriaeth o sut a phryd y gellir ei defnyddio i'n cefnogi orau (Hague; Payton, 2010).

Braint oedd addysgu yn nosbarth lle'r oedd digon o *Ipads i* bob disgybl. Manteisiwyd ar bob cyfle i ddefnyddio'r *Ipads*, yn enwedig yn yr awyr agored. Caniatawyd y nifer o *Ipads* imi fedru'u cynnig fel ffynhonnell ymchwil er mwyn sbarduno meddwl y dysgwyr (gwelir atodiad 31). Penderfynwyd caniatáu hyn, ar yr amod, bod y disgyblion yn gwrando ac yn deall peryglon ymchwilio ar lein, gan sicrhau fy mod i'n dilyn, a'u bod hwythau'n gweithredu polisi rhyngrwyd yr ysgol. Cefnogwyd y ddarpariaeth hon iddynt ddatblygu'n "active meaning-makers" (Hague; Payton, 2010).

Gweithredwyd yr elfen o gymhwysedd digidol yn ganolog yn fy ngwersi oherwydd yn hytrach nag atal disgyblion rhag ymgystyllu'n greadigol â thechnoleg, gall ffocws llythrennedd digidol yn yr ystafell ddosbarth helpu ehangu eu defnydd o dechnoleg a datblygu hunanfynegiant o greadigrwydd gan berchnogi gwell ddealltwriaeth o gymhlethdodau'r rhyngrwyd ynghlwm â'u profiadau. Wrth i'n byd technolegol ddatblygu mae angen i'n dysgwyr ddatblygu. Er mwyn i hyn ddigwydd perchnogwyd ar y cyfle i blethu cymhwysedd digidol yn bwrpasol ym mhob gwers er mwyn, cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu'n gyson ac i gadw fyny â chyflymder adnewyddol dyfodol y byd technolegol, yn hytrach na'i drin fel ychwanegyn (Hague; Payton, 2010). Profwyd yr elfen drawsgwricwlaidd hon yn bositif gan ennyn diddordeb y plant wrth addysgu 'pwnc' nad oeddent yn hoff iawn ohono.

Cyfaddefaf nad oedd yr ymgorfforiad hwn yn faes yr oeddwn yn hyderus ynddi. Ond cydnabyddir fod yr agwedd hon yn newydd i ni gyd, wrth inni ddatblygu i gyd-fynd â'r galw. Byddai'n fuddiol imi felly ymchwilio i ragor o adnoddau chymhwysedd digidol er mwyn cefnogi fy ngwersi a chefnogi datblygiad y dysgwyr. Byddai'n fuddiol imi gynnwys elfennau digidol newydd ar draws y MDaPh wrth imi gydnabod fod plant yr 21ain ganrif ar y blaen pan ystyrid technoleg. Byddai hefyd yn syniad imi geisio darganfod gwahanol ffyrdd o blannu cymhwysedd digidol yn fy ngwersi am fod plant yn arfer â defnyddio *Ipads,* tu hwnt i ffiniau'r ysgol.

Enghraifft ddarluniadol 7 – Cyfres o wersi

Monday, December 16, 2019 9:53 AM

Atodiad 32

Sylwadau a thystiolaeth: Mae wedi cyfarwyddo'n arbennig gyda grwpiau disgyblion y dosbarth ac mae'n adnabod unigolion y dosbarth yn dda. Sicrha bod gwersi'n adeiladu ar wybodaeth flaenorol y disgwyr. Wrth gynllunio cyfres o wersi ar e.e. siapiau 2D/3D a phwysigrwydd cydnabod bod pawb yn wahanol, achubodd cyfle i greu cysylltiadau gyda bywyd go iawn. Wrth gynllunio'r Ddarpariaeth wedi ei gyfoethogi (heriau,) sicrhawyd bod cyfleoedd i'r disgwyr i ddysgu ar draws y meysydd dysgu yn gyson. Cynlluniodd arddangosfa hyfryd yn pwysleisio pwysigrwydd bod yn ffrind i bawb er ein bod ni gyd yn wahanol. Targedodd amrywiaeth o'r meysydd dysgu wrth greu'r arddangosfa e.e. gwaith

Atodiad 33

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad llechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	• Galw i gof beth ydy siâp 2D thrwy gwestiynu a defnyddio strategaeth y bêl fasged • Gofyn beth y maent yn cofio (priodoleddau siâp 2D) • Esbonio bod siapiau 2D yn fflat. • Galw i gof drwy gwestiynu'r plant (gan ddefnyddio ffyn lolipop), beth yw ochr, cornel ac wyneb siâp. • Atgoffa'r disgyblion beth yw ochr, cornel ac wyneb siâp. • Cwestiynu'r dysgwyr gan ddefnyddio ffyn lolipop i esbonio'r gwrthrych 3D. • Cyflwyno siâp 3D, a gofyn i'r plant weithio gyda chyfaill cŵl (Meddwl-paru-rhannu) i gynnig ac esbonio'r gwahaniaeth rhyngddo a siâp 2D. • Dangos enghreifftiau i'r plant (e.e.. can, côn, dis, rolyn tŷ bach) defnyddio ffyn lolipop i ofyn i'r dysgwyr esbonio beth sydd yn y llun. • Gofyn i'r disgyblion (gan ddefnyddio'u gwyntyllau asesu o'u blaen) os yr ydyn yn hapus ac yn deall yr hyn a drafodwyd ar y carped. • Rhannu'r disgyblion mewn i grwpiau.	• Galw i gof beth ydy siâp 2D. Ymateb – pasio'r bêl at rywun arall ar y carped er mwyn cael eu hadborth hwy. • Ymateb i'r hyn y maent yn cofio o'r wers mathemateg flaenorol. • Gwrando ac ymateb beth yw ochr, cornel ac wyneb siâp. • Esbonio'r gwrthrych 3D (gan ddefnyddio'u dealltwriaeth teimlad o wers flaenorol e.e. llyfn, pigog..) • Gweithio gyda chyfaill cŵl i ddatrys problem. • Esbonio beth sydd yn y llun gan ddweud beth mae'n debyg i. • Defnyddio gwyntyllau asesu i ymateb os yr ydyn yn deall neu beidio. • Mynd i'w grwpiau.	• Siapiau 3D. • Gwrthrychau 3D. • Pwynt Pŵer. • Ffyn lolipop. • Gwyntyllau asesu. • Pêl

Atodiad 34

Amser	Gweithgareddau/ Methodoleg/ Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad llechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	• Galw i gof beth yw siâp 3D. • Asesu dealltwriaeth a'r hyn a chofiant o'r wers flaenorol (priodoleddau siâp 3D). – defnyddio ffyn lolipop. • Dangos enghreifftiau – gofyn i'r plant ymateb gan ddefnyddio dealltwriaeth o'u tasgau penodol hwy o'r wers flaenorol (ddoe). • Cyfateb y siapiau 3D yma gyda gwrthrych o'u profiadau dyddiol hwy (dewis gan ddefnyddio ffyn lolipop). • Dangos enghreifftiau i'r plant a gofyn pa siâp maent yn debyg iddo (e.e.. can, côn, dis, rolyn tŷ bach). • Rhannu mewn i grwpiau.	• Galw i gof ac ymateb beth ydy siâp 3D. • Ymateb i'r hyn y maent yn cofio o'r wers mathemateg flaenorol. • Cyfateb y siapiau 3D gyda gwrthrychau o'u profiadau dyddiol. • Gweithio gyda chyfaill cŵl i ddatrys pa' siâp mae'r gwrthrychau'n debyg i. • Defnyddio gwyntyllau asesu i ymateb os yr ydyn yn deall neu beidio. • Mynd i'w grwpiau.	• Siapiau 3D. • Gwrthrychau 3D. • Pwynt Pŵer. • Ffyn lolipop. • Gwyntyllau asesu. • Pêl
Addysgu a Dysgu Craidd	Grŵp Coch (digidol) • Esbonio'r dasg. • Sicrhau ei bod nhw'n deall y meini prawf llwyddiant, gofyn iddynt ddefnyddio'r gwyntyllau asesu i ymateb trwy gydoly dasg. • Defnyddio ffyn lolipop (disgyblion o fewn y grŵp) i ddewis pwy sy'n newid y sleid. • Galw i gof beth yw bob gwrthrych, a gan ddefnyddio'u gwybodaeth o'r wers flaenorol i ymateb i'r hyn y gwnaiff y siâp (rhollo, stacio, llithro). • Defnyddio'u gwybodaeth flaenorol i ymateb i'r lluniau gan lanw'r grid yn ôl os ydy'r gwrthrych yn llithro, rhollo neu'n stacio. • Esbonio wynebau siâp i'r plant gan eu galluogi i gysylltu hyn â'r priodoleddau. • Asesu ymateb y plant a'r siapiau a adnabuwyd wrth ddefnyddio'r grid asesu, er mwyn gweld pwy sy'n adnabod pa siâp yn hyderus.	Grŵp Coch (digidol) • Esbonio'r dasg. • Sicrhau ei bod nhw'n deall y meini prawf llwyddiant, gofyn iddynt ddefnyddio'r gwyntyllau asesu i ymateb trwy gydoly dasg. • Defnyddio ffyn lolipop (disgyblion o fewn y grŵp) i ddewis pwy sy'n newid y sleid. • Galw i gof beth yw bob gwrthrych, a gan ddefnyddio'u gwybodaeth o'r wers flaenorol i ymateb i'r hyn y gwnaiff y siâp (rhollo, llithro, stacio). • Defnyddio'u dealltwriaeth o'r wers flaenorol i ymateb i'r lluniau gan lanw'r grid yn ôl os ydy'r gwrthrych yn llithro, rhollo neu'n stacio. • Esbonio wynebau siâp i'r plant gan eu galluogi i gysylltu hyn â'r priodoleddau. • Asesu ymateb y plant a'r siapiau a adnabuwyd wrth ddefnyddio'r grid asesu, er mwyn gweld pwy sy'n adnabod pa siâp yn hyderus.	• Siapiau 3D • Taflenni bingo • Tabl cofnodi • Ipad • Gwrthrychau 3D • Gwyntyllau asesu. • Ffyn lolipop • Grid asesu'r cynorthwywyr.

Atodiad 35

Amser	Gweithgareddau/ Methodoleg/ Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad llechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	• Galw i gof beth sy'n wahanol rhwng siâp 2D a 3D. • Dangos siâp 3D i'r plant a gofyn iddynt ymateb gan ddefnyddio'u gwybodaeth a dealltwriaeth o'r wers flaenorol (e.e. grŵp coch – sawl wyneb sydd gan y siâp – ehangu ar hyn, ac felly beth y gall wneud e.e. rolio). • Rhannu i'w grwpiau.	• Galw i gof ac ymateb beth yw'r gwahaniaeth rhwng siâp 2D a 3D. • Ymateb i'r hyn y dysgant ar hyn a chofiant o'r wers flaenorol. • Gweithio gyda chyfaill cŵl i ddysgu'r hyn a ddysgant o'r wers flaenorol e.e wynebau siâp, gallu stacio clwb ond nid sffêr..) • Defnyddio gwyntyllau asesu i ymateb os yr ydyn yn deall neu beidio. • Mynd i'w grwpiau.	• Siapiau 3D. • Gwrthrychau 3D. • Pwynt Pŵer. • Ffyn lolipop. • Gwyntyllau asesu. • Pêl
Addysgu a Dysgu Craidd	Grŵp Gwyrdd (heriau) • Esbonio'r gwahanol dasgau. • Sicrhau ei bod nhw'n deall y meini prawf llwyddiant, gofyn iddynt ddefnyddio'r gwyntyllau asesu i ymateb trwy gydoly dasg. • Gofyn iddynt ile yr hoffent fynd i ddysgu. • Asesu hyder a llafar y plant wrth iddynt ddweud ile yr hoffent fynd i ddysgu gan ddefnyddio'r grid asesu. Her 1 • Darganfod gwrthrychau a chreu bwrdd siapiau gan ddefnyddio'r twb twt (wedi'u rhannu i sawl wyneb/ priodoleddau – llithro, rollo, stacio) defnyddio gwybodaeth flaenorol. • Asesu dealltwriaeth y plant gan ddefnyddio'r grid asesu. Her 2 • Egluro iddynt gasglu gwrthrychau 3D neu ddefnyddio'r siapiau 3D i greu/adeiladu rhywbeth gan ddarganfod beth sy'n gweithio orau (defnyddio eu gwybodaeth am y siapiau er mwyn llwyddo). • Asesu dealltwriaeth y plant gan ddefnyddio'r grid asesu. Her 3 • Egluro iddynt ddidoli lync i gylchoedd yn ôl eu profiadau blaenorol. • Asesu dealltwriaeth y plant gan ddefnyddio'r grid asesu. Grŵp Coch (digidol) • Esbonio'r dasg. • Sicrhau ei bod nhw'n deall y meini prawf llwyddiant, gofyn iddynt ddefnyddio'r gwyntyllau asesu i ymateb trwy gydoly dasg. • Defnyddio ffyn lolipop (disgyblion o fewn y grŵp) i ddewis pwy sy'n newid y sleid. • Galw i gof beth yw bob gwrthrych, a gan ddefnyddio'u gwybodaeth o'r wers flaenorol i ymateb i'r hyn y gwnaiff y siâp (rhollo, stacio, llithro). • Defnyddio'u gwybodaeth flaenorol i ymateb i'r lluniau gan lanw'r grid yn ôl os ydy'r gwrthrych yn llithro, rhollo neu'n stacio. • Esbonio wynebau siâp i'r plant gan eu galluogi i gysylltu hyn â'r priodoleddau. • Asesu ymateb y plant a'r siapiau a adnabuwyd wrth ddefnyddio'r grid asesu, er mwyn gweld pwy sy'n adnabod pa siâp yn hyderus.	Grŵp Gwyrdd (heriau) • Ymateb i'r meini prawf gan ddefnyddio'r wyntyll asesu. • Ymateb i ble yr hoffent fynd i ddysgu "rydw i am fynd i ddysgu…". • Defnyddio'r wyntyll felffordd i ennyn cymorth drwy'r dasg. Her 1 • Darganfod a chasglu gwrthrychau 3D a'u gosod yn y twb twt yn ôl eu dealltwriaeth flaenorol. • Trafod beth yw bob gwrthrych, a bod bob siâp yn gallu fod o wahanol faint. • Defnyddio'r wyntyll felffordd i ennyn cymorth drwy'r dasg. Her 2 • Casglu gwrthrychau 3D neu ddefnyddio'r siapiau 3D i greu/adeiladu rhywbeth gan ddarganfod beth sy'n gweithio orau (defnyddio eu gwybodaeth am y siapiau er mwyn llwyddo). • Defnyddio'r wyntyll felffordd i ennyn cymorth drwy'r dasg. Her 3 • Didoli lync i gylchoedd gan ddefnyddio'u gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol. • Disgrifio'r siâp trwy gydoly pham ei fod yn mynd i'r cylch yna – gan ganolbwyntio ar briodoleddau. • Defnyddio'r wyntyll felffordd i ennyn cymorth drwy'r dasg. Grŵp Coch (digidol) • Ymateb i'r meini prawf gan ddefnyddio'r wyntyll asesu. • Newid y sleid ar yr ipad. • Defnyddio'u dealltwriaeth o'r wers flaenorol i ymateb i'r hyn y gwnaiff y siâp (rhollo, llithro, stacio). • Ceisio cyfateb y gwrthrychau â'u priodoleddau (ar y grid). • Adnabod wynebau siapiau er mwyn cysylltu â phriodoleddau (e.e. sffêr 1 wyneb crwn – rollo) • Defnyddio'r wyntyll felffordd i ennyn cymorth drwy'r dasg.	• Siapiau 3D • Taflenni bingo • Tabl cofnodi • Ipad • Gwrthrychau 3D • Gwyntyllau asesu. • Ffyn lolipop • Grid asesu'r cynorthwywyr.

Cyn mynd ati i gynllunio unrhyw wers ar gyfer y dosbarth derbyn, rhaid oedd ble yr oeddent arni, ble yr oedd angen iddynt fod, a sut fedraf eu cynorthwyo eu diddordeb er mwyn iddynt gyrraedd eu nod. Drwy ddarganfod ble mae'r p gellir adeiladu ar y wybodaeth hon gan gynyddu eu storfa wybodaeth (Camp Wrth wreiddio gwybodaeth flaenorol yn addysg y plant, enynnwyd eu diddor iddynt berchnogi'r hyn y dysgant yn flaenorol.

Drwy gynllunio cyfres o wersi (fel sydd uchod) roedd canfod ble'r oedd y dys ble'r oeddent am gyrraedd, a sut i gyrraedd y nod yn hanfodol. Cydnabyddir bawb diddordebau a phrofiadau gwahanol ond drwy wahaniaethu medrir ad wybodaeth a phrofiadau cyffredinol yr holl ddysgwyr (Bloom, 1956). Penderf wneud hyn am ei fod yn bwysig adeiladu ar wybodaeth flaenorol pob unigol iddynt ddatblygu. Yn ogystal â hyn wrth gyflwyno testun newydd i'r dosbarth enwedig y dosbarth derbyn, tueddir mwyafrif o'r disgyblion gychwyn ar yr un agos at yr un lefel o wybodaeth a phrofiadau. Wrth fynd i'r afael â thestun ne ceisiaf groesawu'u syniadau a'u profiadau er mwyn delwedda ble maen nhw iddynt drafod profiadau personol rhoir hyn mewnwelediad imi o brofiadau cy dysgwyr yn ogystal â sbarduno'r plant i argyhoeddi'u hun, gan ennyn eu hur ddiddordeb a diddordeb eraill. "This prior knowledge influences what new or knowledge an individual will construct from new learning experiences" (Philli

Wrth gynllunio ac addysgu'r gyfres o wersi uchod, mabwysiadais ar y cyfle i wybodaeth a phrofiadau blaenorol y dysgwyr ar bob cyfle; adlewyrchwyd hy sylwadau'r mentor yn atodiad 32. Dywed Ausubel (1968) mai adeiladu ar w flaenorol yw un o'r ffactorau, mwyaf dylanwadol mewn addysg. Wrth baratoi gynllunio cyfres o dair gwers i bob MDaPh, gan ganiatáu iddynt lunio ystyr d ymgysylltu'n weithredol â'r byd o'u cwmpas, megis datrys problemau 'go iaw 2000). Penderfynais weithredu, 'datrys problemau' yn ganolog (wedi'u nodi u gynnwys o leiaf un dasg, a sbardunwyd meddwl, ac enyn eu diddordeb. Noc (2012), wrth i bobl ddatrys problemau a darganfod canlyniadau, drwy fyfyrio brofiadau blaenorol, maent yn adeiladu eu hunan ddealltwriaeth a'u diddord

Yn yr un modd, wrth gynllunio cyfres o wersi, ceisiaf ychwanegu adnoddau a (gwelir uchod) er mwyn cydymffurfio'r plant â'u gweld eu trafod a'u gweithred Wrth gychwyn bob gwers, ceisiaf alw i gof yr hyn a gofiwyd o'r wers flaenorc ychwanegu ystadegyn newydd i'w dealltwriaeth. Drwy hyn, cyflwynwyd adn newydd/ychwanegol i adeiladu ar y wybodaeth gyflwynedig. Ychwanega hyr wers , wrth i'r plant ysu am gael arbrofi â'r adnoddau newydd/anadnabyddus Penderfynais wneud hyn am imi gredu fod cyflwyno ac ymgyfarwyddo'r plan adnoddau 'go iawn', yn hollbwysig i'w helpu ar hyd eu haddysg a sbarduno'u Wrth gynllunio cyfres o wersi caniateir imi ymglymu ystyr rhwng bob gwers, na'u trin yn arunig. Ysbrydolwyd imi wneud hyn am iddo baratoi'r dysgwyr a

meddyliau gan ganiatáu iddynt lunio ateb/esboniad o'r hyn a integreiddiwyd
dealltwriaeth o'r pwnc eisoes. Yn ychwanegol i hyn, plannwyd
hedyn gyda'r bwriad iddynt gysylltu â thasgau'r wers er mwyn llwyddo. Noda
Harackiewicz et al (2016) fod 'diddordeb' yn broses ysgogol bwerus sy'n byw
dysgu, sy'n hanfodol er mwyn llwyddiant academaidd.

Hawdd yw adeiladu ar brofiadau blaenorol pan gychwynasant o hedyn, ond
yw darganfod, asesu a chyfarwyddo â lefel unigol bob dysgwr, gan geisio er
diddordeb ac adeiladu ar eu dealltwriaeth gyfredol bersonol. Wrth ystyried h
fyddai'n fuddiol imi gamu nôl gan adael i'r dysgwyr arwain y dysgu. Drwy wn
ceir mewnwelediad clir o'u gwybodaeth a'u profiadau blaenorol. Ymddengys
(Haskins, 2010) fod plant yn ennyn diddordeb ar sail rhyddid ac annibyniaet
fundamental underpinning of a classroom in which children are granted free
tremendous time and effort must be channeled into creating a environment t
genuinely meets the needs of the children and supports them as they learn t
liberty with responsibility" (tud. 11).

Enghraifft ddarluniadol 8 – Darpariaeth wedi'i gyfoethogi

Monday, December 16, 2019 10:26 AM

Atodiad 36

Darpariaeth wedi ei gyfoethogi / Heriau

Sgrwbiratsio ymarferwch ysgrifennu eich enwau gan ddefnyddio gwahanol liwiau.	Modur Mân addurnwch y ffens â rhubanau lliw drwy wehyddu.	Dwylo Prysur arbrofwch gyda lliwiau a'u cymysgu i ddarganfod lliwiau newydd.	Heriau Heini Taflwch ffa lliw i'r hwla hwp o'r un lliw.
Llyfrau Llyfrau darllenwch storïau Elfed.	Digidol tynnwch ffotograffau o liwiau gwahanol ar dir yr ysgol.	Dwli Darganfod toddwch y cwbiau i â i ddarganfod lliwiau newydd.	Miri Mathemateg tu allan crëwch roced allan o siapiau 2D.
Caban Cerdd canwch liwiau'r enfys. canwch liwiau Joseff.	Gweithdy Gweithgar dilynwch gynllun i greu twr allan o siapiau 2D.	Creu yn y Clai crëwch rywbeth allan o glai gan ddefnyddio'ch hoff liw.	Chwarae rôl sylwch ar yr holl liwiau wrth siopa. yn yr archfarchnad.





Atodiad 37

Darpariaeth wedi ei gyfoethogi / Heriau

Sgrwbiratsio ymarferwch ysgrifennu eich cyferniau gan ddefnyddio gwahanol liwiau.	Modur Mân addurnwch y ffens â rhubanau lliw drwy wehyddu siâp.	Dwylo Prysur arbrofwch gyda lliwiau a'u cymysgu i ddarganfod lliwiau newydd gan ddefnyddio geirfa..	Heriau Heini Taflwch ffa lliw i'r hwla hwp o'r un lliw.
Llyfrau Llyfrau darllenwch storïau Elfed gan gryntoi'r gwybod- aeth.	Digidol tynnwch ffidio o'ch chyfoed wrth iddynt ddarganfod gwahanol liwiau ar dir yr ysgol.	Dwli Darganfod mesurwch y dŵr i doddi cwbiau i â i ddarganfod lliwiau newydd.	Miri Mathemateg tu allan crëwch rhywbeth gan ddefnyddio gwrthrychau 3D o'r tu allan.
Caban Cerdd canwch cân lliwiau gyda cyw.	Gweithdy Gweithgar dilynwch gynllun i greu twr allan o siapiau 3D.	Creu yn y Clai crëwch rywbeth 3D allan o glai gan ddefnyddio'ch hoff liw.	Chwarae rôl sylwch ar yr holl liwiau wrth siopa. yn yr archfarchnad.





Wrth gyfeirio at yr atodiadau uchod, caniateir i'r plant berchnogi'u haddysg drwy weithredu tasgau a pharatoed, yn annibynnol wrth ddefnyddio'u gwybodaeth bresennol ac adeiladu arno drwy gymorth adnoddau ychwanegol. Ar ddechrau pob tymor, paratowyd cynllun 'darpariaeth wedi'i gyfoethogi' ar y cyd gyda phlant y dosbarth derbyn, gan blethu bob elfen â rhyw MDaPh.

Wrth inni hwylio drwy'r gwersi, gan adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau'r dysgwyr, gorfodir imi ddatblygu'r elfennau a gefnogai'u haddysg, yn y 'ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi'. Gweithredwyd y newidiad hwn wrth imi gychwyn testun newydd, gan ganiatáu i'r dysgwyr ddefnyddio'u gwybodaeth a'u profiadau i gyfoethogi'r tasgau newydd yn annibynnol. Yn ogystal â hyn, wrth hwylio drwy'r gwersi, ychwanegwyd adnoddau newydd yn gyson gan ymgyfarwyddo'r dysgwyr ac ychwanegu haen wybodaeth newydd. Yr un yw nod y ddarpariaeth, drwy gyflwyno adnoddau newydd i wahanol feysydd o gwmpas y dosbarth, cefnogwyd y dysgwyr wrth iddynt ddatrys problemau, a chaniatáu iddynt lwyddo. Drwy newid y dasg i gyd-fynd â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth, blagurwyd diddordeb y plant gan ennyn iddynt eisiau dysgu mwy (Monteiro, 2016). Tueddir hefyd ychwanegu cyffro i'r ddarpariaeth drwy gyflwyno ambell adnodd cyffroes. Penderfynais wneud hyn am i'r plant gwir fwynhau a chyffroi wrth lwyddo a datrys problemau. Mae perchnogi'r gallu i ddatblygu ar sail sgiliau blaenorol yn angenrheidiol ym mywyd y dysgwyr wrth iddynt ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol (Donaldson, 2015).

Adnewyddwyd yr ardaloedd a'r darpariaethau i gyd-fynd â dealltwriaeth y plant er mwyn gwthio'r dysgu yn ei flaen. Profai hyn, datblygiad meddwl a sgiliau cofio'r plant wrth iddynt ddewis a dethol y wybodaeth angenrheidiol i'w helpu datrys y problemau/gweithredu'r tasgau. Caniatawyd i'r plant ddewis eu hardaloedd dysgu'n unigol yn seiliedig ar eu diddordebau, gan ganiatáu iddynt gydweithio ag eraill. Argyhoedda Dewey (1997),"that learning is a social activity – it is something we do together, in interaction with each other, rather than an abstract concept". Penderfynais weithredu hyn, gan sbarduno'u creadigrwydd, hybu eu sgiliau llafar a chymdeithasol, a dyrchafu'u medrau meddwl yn feirniadol (LIC, 2017).

Caniateir cyfoethogi'r ddarpariaeth i'r dysgwyr weithredu'r heriau mewn unrhyw fodd drwy ddefnyddio'u profiadau/gwybodaeth flaenorol. Adlewyrchwyd hyn yn bositif am i'r broses o dderbyn gwybodaeth gyson fod yn oddefol ac yn aneallusol. Crybwyllir McLeod (2019), fod rhaid i wybodaeth wreiddio o gysylltiadau ystyrlon, rhwng gwybodaeth flaenorol a phrosesau sy'n gysylltiedig â'u dysgu.

Er bod annibyniaeth yn bwysig wrth adeiladu'u gwybodaeth a'u profiadau, mae hefyd yn bryder. Mi all athroniaeth y cyfnod sylfaen lithro drwy gynnig gormod o ddewis i ddisgyblion ac esgeuluso medrau sylfaenol addysgu. Noda'r Wales Institute of Social & Economic Research, Data & Methods (WISERD) (2014) "the most effective Foundation phase classrooms have a balance of focused, enhanced and continuous tasks". Byddai'n fuddiol gweithredu'r cydbwysedd hwn drwy fyfyrio a chydweithio, fel y gellir pawb gyrraedd yr un lefel o ddealltwriaeth addysgol. Byddai'n syniad hefyd, wrth weithredu'r heriau i adeiladu ar wybodaeth a phrofiad bywyd 'bob dydd' y plant gan ehangu'u creadigrwydd a'u medrau, ac ymgyfarwyddo â'u hamgylchfyd tu hwnt i waliau'r ysgol.

Enghraifft ddarluniadol 9 – Thema

Monday, December 16, 2019 10:26 AM

Atodiad 42

Sylwadau a thystiolaeth: Mae [redacted] wedi cyfarfwyddo'n arbennig gyda grwpiau disgyblion y dosbarth ac mae'n adnabod unigolion y dosbarth yn dda. Sicrha [redacted] bod gwersi'n adeiladu ar wybodaeth flaenorol y dysgwyr. Wrth gynllunio cyfres o wersi ar e.e. siapiau 2D/3D a phwysigrwydd cydnabod bod pawb yn wahanol, achubodd [redacted] r cyfle i greu cysylltiadau gyda bywyd go iawn. Wrth gynllunio'r Ddarpariaeth wedi ei gyfoethogi (heriau,) sicrhawyd bod cyfleoedd i'r dysgwyr i ddysgu ar draws y meysydd dysgu yn gyson. Cynlluniodd [redacted] arddangosfa hyfryd yn pwysleisio pwysigrwydd bod yn ffrind i bawb er ein bod ni gyd yn wahanol. Targedodd amrywiaeth o'r meysydd dysgu wrth greu'r arddangosfa e.e. gwaith creadigol, iaith, personol, mathemateg. Targedau:

Ein thema o fewn y dosbarth derbyn y tymor hwn oedd 'y byd o liw'. Gweithredwyd y thema fel llinyn i gysylltu gwersi'r MDaPh ynghyd. Paratowyd cynllun hir dymor a nodai holl sgiliau angenrheidiol y thema, a oedd angen eu cynnwys a'u datblygu dros y tymor. Gwelaf ddefnydd o thema'n ennyn diddordeb y plant wrth iddynt fedru uniaethu gyda rhyw elfen ym mhob gwers, gan adeiladu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Cyn cynllunio unrhyw wers, ceisiaf edrych ar 'adran' y thema bresennol yng nghynllun hir dymor yr ysgol, gan ragweld yr hyn sy'n ofynnol wrthyf a'r hyn y medrir datblygu ym mywyd addysg y dysgwyr dros y tymor. Drwy wneud hyn ceisiaf gysylltu, sgiliau'r thema gyda sgiliau'r MDaPh gan baratoi tasgau a chaniateir i'r dysgwyr adeiladu'u gwybodaeth a'u profiadau blaenorol, drwy brofi elfen hwylus. Cydnabyddir y fraint o dderbyn thema mor agored a gweithredol a adlewyrchai potensial ymysg plant.

Wrth gynllunio ar y cyd gyda fy mentor dosbarth, daeth sbardun yr wythnos o'r cynllun hir dymor e.e. Stori Elfed. Seliwyd cynnwys ac adeiladaeth y gwersi ar sgiliau'r cynllun tymor canolig. Rhedai'r thema drwy bob gwers gan hybu iddynt ddefnyddio'u gwybodaeth flaenorol i ddatrys problemau gan fanteisio ar gymorth adnoddau perthnasol y thema, a ganiateir iddynt adeiladu'u dealltwriaeth ar draws wahanol MDaPh (Inoas; Camusca; Harvest, (2012). Penderfynais bwrpasu hyn am i'r thema gynnwys sgiliau hollbwysig ar gyfer datblygiad dyfodol y dysgwyr e.e. cymysgu dau liw i greu rhyw liw penodol. Medrir defnyddio'r wybodaeth hon am weddill eu hoes sy'n adlewyrchu pwysigrwydd adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau. Enghraifft o hyn, yw'r dasg o gymysgu lliwiau mewn gwers lles ac adeiladu ar y wybodaeth hon er mwyn llwyddo yng ngwers greadigol 'Kandinsky'. Adlewyrchwyd hyn ddatblygiad drwy fwynhad (gwelir atodiad 45 a 46).

Modd arall o ddefnyddio tasgau ac adnoddau i adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau'r dysgwyr drwy ennyn eu diddordeb oedd, manteisio ar y cyfle i greu arddangosfa ar hyd coridor y cyfnod sylfaen ar y cyd gyda'r plant. Wrth ddefnyddio stori Elfed fel sbardun medrir clymu elfennau o'r saith MDaPh ac ennyn eu diddordeb, wrth adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol wrth ddysgu am 'wahanol bobl' (amlygwyd hyn gan sylwadau'r mentor yn atodiad 42). Caniateir yr arddangosfa hefyd, iddynt adeiladu ar wybodaeth eu thema flaenorol 'y teulu' gan ymateb drwy brofiadau datblygedig personol. Yn ychwanegol i hyn, defnyddir adnoddau cartrefol wrth greu e.e. caead poteli llaeth, a chaniateir i'r plant uniaethu ac adeiladu'u gwybodaeth am yr amgylchedd a'u hamgylchfyd. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol imi gynnwys mwy o elfennau bywyd 'go iawn' uniaethol. Credaf fod hyn yn bwysig oherwydd dyma yw eu cynefin a drwy ddysgu am eu cynefin/amgylchfyd yr ysgol medrant adeiladu a chynyddu'u profiadau blaenorol (LIC, 2008). Perchnogir plant diddordeb wrth iddynt sôn am yr hyn sy'n gyfarwydd iddynt (Dewey, 1992).

Croesawyd diddordeb y plant wrth wreiddio nhw, fel pobl, yn ganolog yn y dasg. Serch hyn, byddai'n fuddiol caniatáu iddynt arbrofi ag adnoddau'n annibynnol gan adnabod ffynonellau a ellir fod o fudd iddynt e.e. llyfrau – fel ffynhonnell ymchwil er mwyn adeiladu'u gwybodaeth a'u profiadau. Byddai'n fuddiol


Cynllunio Tymor Hir 43 **Atodiad**

	Hydref		Gwanwyn		Haf
	Albwm Teulu		Un Tro	Byd Mawr Crwn	Sw Bach
Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Llyfr/Ffocws					
Genres					
Datblygiad Mathemategol a Rhifedd					
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd					
Datblygiad Personol a Chymdeithasol					
Datblygiad Creadigol					
Datblygiad Corfforol					
Addysg Grefyddol					
Gwyliau a Dathliadau					
Digidol					

Atodiad 45



Atodiad 46






Cynllunio Tymor Canolig **Atodiad 44**

N2	Derbyn	BI1	BI2	Hydref 1		Gwanwyn 1		Haf 1	Hydref 2		Gwanwyn 2		Haf 1
Sgiliau				Albwm Teulu	[redacted]	Un Tro	Byd Mawr Crwn	Sw Bach	Hapus-rwydd	Dathlu	Ahoi Tir!	Pethau Pitw	Bwyd! Bwyd! Bwyd!
Deilliant 4													
Llafaredd													
Mae'n gallu gwrando ar siaradwyr neu ysgogiadau eraill gyda mwy o sylw, gan ymateb yn briodol fel arfer i wybodaeth a chyfarwyddiadau cymhleth. Mae'n gofyn cwestiynau marwl er mwyn cadarnhau ystyr.		✓							✓				
Mae'n gallu ymuno, alladrodd neu ddysgu ar gof rhigymau, caneuon a cherddi, a defnyddio cyflythrennu ac odli i greu rhai ei hun. Mae'n gallu segmentu a chyfuno geiriau.		✓	✓	✓					✓	✓	✓		
Mae'n gallu defnyddio ystod gynyddol ac amrywiol o eirfa briodol. Mae fel arfer yn gwneud ei hun yn glir drwy ddewis geiriau yn fwriadol a threfnu'r hyn a ddywedant.				✓		✓		✓			✓		✓
Mae'n gallu siarad ag eraill yn ystod gweithgareddau ar y cyd ac yn ymateb iddynt hefyd. Mae'n ymestyn syniadau neu hanesion yn ymwneud â phynciau cyfarwydd trwy gynnwys rhai manylion, mynegi barn ac esbonio proseau, gan ddangos ymwybyddiaeth o anghenion gwrandawyr.		✓		✓					✓		✓		
Mae'n gallu siarad yn glir ac yn glywadwy gan gyflwyno ystyr i amrywiaeth o wrandawyr.		✓	✓	✓					✓	✓	✓		
Mae'n gallu mabwysiadu rolau go iawn neu ddychmygus gan ddefnyddio iaith briodol.				✓	✓						✓	✓	
Darllen													
Mae'n gallu dewis deunyddiau darllen a siarad am nodweddion testun syml.		✓						✓	✓				✓
Mae'n gallu alladrodd digwyddiadau o naratifau yn y drefn gywir. Mae'n gallw i gof wybodaeth mewn testunau, gan ddefnyddio profiadau personol i gefnogi eu dealltwriaeth.				✓							✓		
Mae'n gallu adnabod geiriau cyfarwydd a defnyddio strategaethau i ddatgodio geiriau anghyfarwydd, dilyn print gyda'u llygaid a darllen atalnodi gyda mynegiant.					✓							✓	
Ysgrifennu													
Mae'n gallu ysgrifennu geiriau, ymadroddion a llythrennau, gan ffurfio priflythrennau a llythrennau bach sydd fel arfer â siâp clir ac wedi eu cyfeiriadu'n gywir.		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Mae'n gallu defnyddio amrywiaeth o strategaethau sillafu gan gynnwys ymwybyddiaeth ffonolegol ar gyfer geiriau sy'n rheoleidd yn ffonolegol a strategaethau gwahaniaethu gweledol ar gyfer geiriau ami eu defnydd.		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Mae'n dechrau defnyddio cysyllteiriau a rhai geiriau trefnu wrth ysgrifennu, a defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn gyda graddfa o gysondeb.		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Mae'n gallu defnyddio iaith ysgrifenedig i ddibenion gwahanol yn annibynnol, gan ddilyn ffurf a fodelwyd gan oedolyn, a gallu dlvniannu					✓		✓						✓

Atodiad 47



imi hefyd, ennyn iddynt gydnabod pan yr ychwanegant at eu dealltwriaeth neu phan yr hoffent dderbyn gwybodaeth ychwanegol.

Myfyrdod beirniadol

Monday, December 16, 2019 9:53 AM

Gall edrych nôl ar y gorffennol fod yn fodd i ddeall, beth a phwy ydych chi yn gliriach, er mwyn adeiladu dyfodol doethach (Webb, 2010). Bwriad y portffolio hwn yw tynnu ar dystiolaeth ymchwil a gasglwyd fel trosiad o fy astudiaethau proffesiynol ac addysgegol a'u defnyddio i ddatrys beth, sut a pham yr wyf yn addysgu. Amlygwyd Dewey (1997), ni ddysgwn o brofiad yn unig, dysgwn wrth fyfyrio ar brofiad. Yn ystod y portffolio hwn, darparwyd llwyfan i rhannu syniadau a phrofiadau datblygedig gan arbrofi a myfyrio meysydd sydd ar flaen y gad wrth arwain dysgu. Yng nghorff y portffolio hwn ceisid cynnwys trafodaeth ynghylch llenyddiaeth, gan roi'r ffocws penodol ar dair egwyddor addysgegol, a'u hadfyfyrio'n feirniadol ar sut y gweithredwyd eu hargymhellion yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol (PAP), gan ofyn, "Beth allaf wneud yn wahanol er mwyn diwallu anghenion fy nysgwyr yn well?"

<u>Egwyddor addysgegol:</u> Mae addysgu a dysgu da'n golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.

Ar ddechrau'r PAP rhan 1, roedd addysgu drwy ddilyn egwyddorion AagD a darganfod strategaethau a weithiwyd yn heriol am nad oeddwn yn adnabod y dysgwyr. Nodwyd yn Hattie (2012) "the most important single factor influencing learning is what the learner already knows" (Ausubel, 1968, t.vi). Pwysleisia Hattie (2012) pwysigrwydd dealltwriaeth yr athrawon o'r cyflawniadau y daw'r dysgwyr â i'r dosbarth. Roedd yr elfennau yma'n anadnabyddus imi, ond yn hanfodol imi ddarganfod cyn cynllunio. Dywed Black a Wiliam (1998), "teachers need to know their pupils' progress and difficulties with learning so that they can adapt their own work to meet pupils' needs." Er imi arsylwi'r dosbarth wythnos cyn cychwyn PAP, ni berchnogwyd dealltwriaeth o gynnydd nac anawsterau'r plant. Dylwn fod wedi archwilio'n ddyfnach i lefel presennol y dysgwyr ac edrych yn fanylach ar bolisi asesu'r ysgol.

Penderfynais asesu'n 'ffurfiannol' drwy gynllunio gwaith y dyfodol a neilltuo deilliannau pwrpasol gan gronni perfformiad y dysgwyr. Nodwyd Black a Wiliam (1998) fod pedair 'elfen' i asesu - cwestiynu, adborth, rhannu meini prawf llwyddiant a hunanasesu. Fel amlygai enghreifftiau darluniadol (ED) yr egwyddor hon, penderfynais adfyfyrio tair elfen yn benodol wrth weld eu potensial. Dadleua Pollard (2014a) mai llwyddiant canolog AagD yw ansawdd y cwestiynau gofynnir i'r dysgwyr. Anogai cwestiynau effeithiol deialog rhwng yr athro a'r dosbarth. "It is through dialogue that pupils develop a sense of what they are aiming for, how to get there, and a sense of quality" (Pollard, 2014a, t.362).

Ar ddechrau'r lleoliad, tueddir defnyddio'r un strategaeth cwestiynu o hyd sef 'llaw i fyny'. Croesawyd hyn atebion ddi-gywrain, gan gyfyngu'r nifer a ymatebwyd gan arwain y gweddill i lithro tu ôl (Wiliam, 1998). Pwysleisiwyd Pollard (2014b), fod annog trafodaeth yn hollbwysig, nid yn unig er mwyn asesu dealltwriaeth gyfredol ond ymdebygwyd yn rhan annatod o'r broses meddwl a dysgu da (Pollard, 2014b, t.362). Er imi ddelio â hyn drwy, enwi'r plant ar hap, a'u hannog i ymateb, adlewyrchodd y dull annhegwch a diffyg ymrwymiad.

Wrth ddatblygu, penderfynais ddisodli'r arfer traddodiadol 'llaw i fyny' a gweithredu polisi Black (2003) 'dim dwylo i fyny'. Drwy groesawu tair strategaeth cwestiynu newydd: ffyn lolipop, cyfaill cŵl a phêl fasged (ED 1), sicrhawyd i bob disgybl feddwl ar flaenau eu traed, ac imi dderbyn mewnwelediad o'u dealltwriaeth, gan ategi'r elfennau llwyddiannus a'r hyn oedd angen datblygu (atodiad 5). Ystyriwyd ddatblygu'r agwedd 'amseru' ynghlwm â 'gwahaniaethu' ymhellach am nad oedd bob strategaeth yn addas at lefel bob dysgwr. Noda Bloom (1956) fod angen i'r dysgwyr 'wybod' y wybodaeth cyn ei ddeall a'i ddeall cyn ei ddefnyddio. Hoffwn ddatblygu'r agwedd hon ymhellach, drwy weithredu dull 'tacsonomeg Bloom'. Bwriadir ddewis enw a thargedu'r cwestiwn i gyfateb â lefel priodol y dysgwr, fel medrant "show what they understand, and ultimately what they can do" (Dixie, 2009, t.74). Gallwn hefyd fod wedi cynyddu'r amser meddwl,

gan sicrhau ymrwymiad dosbarth cyfan, drwy ofyn iddynt ysgrifennu'u hatebion ar ddarn o bapur, bwrdd gwyn bach neu *IPad*, a'u dal i fyny. Cyniga hyn adborth uniongyrchol ynghylch pwy sy'n deall a phwy sydd ddim (Rowe, 1986).

"All young people need to become their own best self-assessors" (Earl; Katz, 2008, t.90). Wrth ddechrau'r lleoliad tueddir eu danfon i'w grwpiau heb gyfle i hunanasesu'u dealltwriaeth. Cydnabyddir, fod manteisio ar bob cyfle i ganiatáu hunanasesu'n, hollbwysig cyn gweithredu unrhyw dasg. Cyflyrai Black (2003), rhoir 'asesiad cymheiriaid' gyfle gwerthfawr i arsylwi a myfyrio ar yr hyn y digwyddai yn y dosbarth, sy'n ddefnyddiol i baratoi gwersi'r dyfodol. Wedi ymchwilio, penderfynais ddefnyddio, bodiau, (atodiad 7) am ei fod yn ddull syml a hyrwyddai gwytnwch, â'r bwriad o ddatrys problemau cyn iddynt ddatblygu. Serch hyn, ni chaniateir y dull i ddysgwyr, gwir hunanasesu eu dealltwriaeth am ei fod braidd yn statig. Deliais â hyn drwy ychwanegu graddau rhwng bawd i fyny ac i lawr ond adlewyrchwyd anghysondeb. Mewn digwyddiad arall (atodiad 8) datblygwyd y dull, fel iddynt unioni'r arwydd yn erbyn y frest gan gau'u llygaid. Ni ddatgelir hyn ddibynadwyedd am nad oeddent am gyfaddef methiant. Pe' ni ddeallai unrhyw ddisgybl, tueddir gofyn iddynt ymhelaethu'r anwybodaeth. Byddai'n fuddiol petawn heb enwi'r unigolyn gan sicrhau cymorth yn dawel bach, er mwyn hybu'u hyder/datblygiad.

Wrth ddatblygu, daeth y plant yn fwy hyderus wrth hunanasesu a deallant nad oedd dim o'i le â chyfaddef anhawster. Croesawyd 'gwyntyllau asesu' a chaniateir i'r dysgwyr hunanasesu trwy gydol y wers, fel modd o ennyn cymorth. Clodforwyd yr ystyriaeth a llwyddiant fy strategaethau AagD yn fy nyddlyfr dysgu (atodiad 10). Fodd bynnag, un agwedd ystyriwyd ymhellach oedd gwraidd bwriad hunanasesu, a chaniateir symud y dysgu'n ei flaen, drwy: "integrating the practice into the continual process of working on a task" (Pollard, 2014a, t.367). Dylwn weithredu hunanasesu, drwy argyhoeddi, mai proses aflinol yw dysgu, a dylid myfyrio gwaith yn barhaus i'w wella.

Mae adborth effeithiol yn rhan greiddiol o AagD, yn gyfle i athrawon gynnig clod a chyflyru meysydd/nodau i'r disgyblion ddatblygu. Cydnabyddir fod modd cyflyrwyd adborth yr un mor bwysig, fel noda Hattie a Timperley (2007, tud.82), "feedback has no effect in a vacuum: to be powerful in its effect, there must be a learning context to which feedback is addressed". Gweithredaf, drwy gyfateb yr adborth i'r meini prawf, gan sylweddoli'i lwyddiant, pan gafwyd ei gysylltu'n uniongyrchol â thasg. Oherwydd gwaharddiad llyfrau'r derbyn, roedd cynnig adborth rheolaidd yn heriol. Rhoddais adborth llafar cyson i'r plant ond cytunwyd ar benodi taflenni a llyfrau asesu er mwyn asesu a llunio darlun cyflawn o'r plant fel unigolion (ED 3).

"Marking, when completed regularly, allows a teacher to form a picture of individual pupils, assessing strengths and weaknesses of the individuals as well as the class as a whole" (Davies, 2006, tud.166). Drwy'r dull hwn, medraf grynhoi cynnydd unigolion a phinbwyntio'r bylchau yn eu dealltwriaeth. Crynhoir gwir ddealltwriaeth y dysgwyr yn gyfrinachol, sy'n fodd dibynadwy am nad yw pob disgybl mor agored i foddau asesu/hunanasesu eraill gan ystyried y caiff adborth effeithiol ddylanwad 'mawr' ar eu haddysg (Education Endowment Foundation (EEF, 2017). Aseswyd y plant gan ddilyn strwythur yr ysgol (atodiad 12), ond oherwydd yr holl ofynion, nid oedd adborth unigol cyson yn bosib. Er imi bennu grid/llyfr asesu i'r cynorthwywyr er mwyn mesur datblygiad a chynnig adborth unigol iddynt, ni adlewyrchwyd ddibynadwyedd, am iddo weithredu'n rhy hwyr am wellhad. Tueddir mesur cyrhaeddiad y dysgwyr yn erbyn ei gilydd yn hytrach nag yn unigol. Er mwyn unigolion gyrraedd eu nod, rhaid mesur ei gwelliannau'n erbyn perfformiad blaenorol personol, nid perfformiad eraill.

Yn PAP rhan 2, anelaf at hyrwyddo a chynnwys 'rhannu meini prawf llwyddiant' yn ganolog ym mhob gwers gan sicrhau y ddeallai'r dysgwyr yr hyn eu haseswyd yn erbyn. Dysgais mai pwysigrwydd datblygiad unigol y plentyn sy'n cyfri ac nid cwblhau gwaith. Sicrhaf ystyried ymdrech a chyrhaeddiad y dysgwyr wrth asesu a chynnig adborth.

Egwyddor: Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.

Ar ddechrau PAP rhan 1, roedd cydnabod elfennau trawsgwricwlaidd a sut i'w cysylltu â phynciau penodol yn heriol am ni wyddwn pa' sgiliau oedd yn ofynnol o bob sector. Noda Martin (2002), dylai bob pwnc gynnwys elfen craidd, yn seiliedig ar un neu ddau bwnc canolog, gyda'r bwriad i addysg mewn un maes gael ei ategu gan ddysgu yn y lleill. Crynhoir Wortham (1996), rhaid i'r 'pwnc' gael ei gryfhau â chysylltiadau pwrpasol, drwy blethu cynnwys a chysyniadau. "The intent of curriculum integration is to construct meaningful bridges to show connections in development and learning" (Wortham, 1996). Dadleua Barlow a Brook (2010) mai agwedd canolog trawsgwricwlaidd, yw'r syniad, y gall un 'thema' gynnig cyfleoedd eang ar draws sawl maes dysgu a phrofiad (MDaPh), sy'n fodd o arbed amser ac osgoi ailadrodd. Wedi arsylwi cysylltiadau trawsgwricwlaidd mewn gwersi, amlygwyd iddynt gyfleu addysg ehangach a mwy cydlynol. Sylweddolaf, gallaf fod wedi ymchwilio'n ddyfnach, i gysylltiadau rhwng sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau'r MDaPh, a'u mewnblannu yn fy nghynllunio, yn hytrach na'u cynnwys er mwyn ticio'r bocs.

Ar ddechrau'r *lleoliad*, tueddir gynllunio'n arwynebol drawsgwricwlaidd gan gynnwys elfen llythrennedd/rhifedd/cymhwysedd digidol (CD) yn ddiystyr ac yn anddatblygiedig, a gyfyngwyd cyfleoedd a datblygiad y dysgwyr. Serch hynny, cydnabyddir, pwysigrwydd/phwrpas datblygiad cydweithredol, am i "ddysgwyr yng Nghymru fwynhau addysgu a dysgu a'u hysbrydolwyd i lwyddo, mewn cymuned addysg cydweithredol, lle cafwyd potensial bob plentyn a pherson ifanc eu datblygu" (Lewis, 2015). Amlygai ED yr egwyddor hwn, imi weithredu'r her hwn, drwy blethu sgiliau trawsgwricwlaidd i bob gwers lle y bo modd. Cynigai hyn, gyfle i'r dysgwyr ddatblygu'u sgiliau a chymhwyso'u gwybodaeth yn drawsgwricwlaidd i ddatrys problemau a meddwl yn greadigol ar draws amryw feysydd (Lewis, 2015).

Noda'r EEF (2018), darparir sgiliau llythrennedd, flociau adeiladu, ar gyfer llwyddo'n academaidd a chyflawni gwell dyfodol. Ar ddechrau'r lleoliad tueddir sgimio dros lythrennedd, wrth bryderu colli ystyr y wers a hyrddio'r sgiliau pynciol i'r neilltu. Gallwn fod wedi perchnogi'r cyfle i ofyn i'r mentor, sut i wreiddio sgiliau llythrennedd â sgiliau MDaPh er mwyn hyrwyddo'r dysgu.

Wrth i'r lleoliad ddatblygu, datblygais well dealltwriaeth o'r hyn oedd yn ofynnol. Sicrheir sefydlu'r sgiliau a dynnwyd o fframwaith llythrennedd y cyfnod sylfaen, yn ganolog ym mhob gwers priodol (Llywodraeth Cymru (LIC), 2019). Amlinellwyd atodiad 15 i lythrennedd dreiddio'n naturiol ac yn ddiffuant i fy ngwersi. Sicrheir hyn cyfleoedd iddynt ddefnyddio'u hiaith wrth wraidd, eu hemosiynau, meddwl, dysgu a'u hymdeimlad o hunaniaeth bersonol (Barnes, 2015b). Fodd bynnag, ystyrid y berthynas rhwng 'mwynhad' a 'datblygiad' gan ddarganfod; os yw dysgu'n hwyl, byddai'n fwy effeithiol, gan ennyn chwilfrydedd (Barnes, 2015b). Gweithredwyd hyn drwy ddefnyddio 'pyped' (atodiad 21), a chaniateir imi liwio iaith y dysgwyr, ehangu'u meddyliau, ac ychwanegu at eu dealltwriaeth bynciol.

Yn yr un modd, mae rhifedd. Ar ddechrau'r lleoliad, gwelais y cyfrifoldeb hwn yn heriol ac yn arunig. Fodd bynnag, wedi astudio'r fframwaith (LIC, 2019) cydnabuwyd pwysigrwydd arwahanu 'mathemateg' a 'rhifedd' er mwyn cynnig cyfleoedd datblygiedig i'r dysgwyr. Wrth gyfeirio at atodiad 24, plethwyd sgiliau rhifedd yn fy ngwers gwyddoniaeth yn ddiarwybod ond yn llwyddiannus, wrth gydnabyod bwysigrwydd, "defnyddio sgiliau ymresymu rhifiadol er mwyn datrys problem a chyflawni gweithdrefnau rhifiadol sy'n galluogi pobl i gyfrifo ac argyhoeddi'u hatebion" (LIC, 2019).

Drwy ddatblygiad lleoliad, sylwais fod priodi rhifedd â MDaPh digon arferol. Fodd bynnag, heriol oedd sicrhau iddynt ymgyfarwyddo a'u cymhwyso yng ngyd-destunnau bywyd 'go iawn'. Noda Estyn (2010), fod hyn yn hollbwysig, i ddatblygu'n ddysgwr hollol rifog. Wrth gyfeirio at atodiad 23, gofynnwyd i'r plant ddilyn cyfarwyddiadau er mwyn darganfod Elfed. Profwyd hyn yn heriol am nad oeddent yn gyfarwydd â'r eirfa gyfoethog rifog. Dylwn fod wedi cydnabod fod hyn yn agwedd newydd iddynt, gan gysylltu'r sgiliau â'u lefel priodol, gan addasu'r cyfarwyddiadau i'w cyfateb.

Chwaraea CD rhan gynyddol ym mywydau plant yr 21ain ganrif, gan ddatblygu: chyfathrebu, rhwydweithio, gwybodaeth, hamdden ac adloniant (Donaldson, 2015). Ar ddechrau'r PAP, cydnabyddir mai hwn oedd fy nghyfrifoldeb gwanaf, am i'r byd ddatblygu'n ddigidol gynt nag unrhyw faes arall, a bod ein dysgwyr presennol, mwy ymwybodol a chyfarwydd â'n byd datblygiedig ddigidol nag yr ydym ni (Prensky, 2001), Fodd bynnag, wrth ystyried oed fy nisgyblion, gwneir y sicrwydd o gynnig cyfleoedd newydd datblygedig, yn rhwyddach. Fel adlewyrchwyd ED 6, cefais hi'n anodd meddwl am ffyrdd fodern o'i drosglwyddo, heblaw am *Ipad*. Er i'r *Ipads* gynnig cyfleoedd datblygedig eang, sylwais ni heriwyd plant 'heddiw', am mai dyma'r norm adref.

"Heb gyfleoedd CD, mae yna risg i heithrio'r plant o'u dyfodol, a yrrwyd gan ddealltwriaeth ddigidol" (LIC, 2017b). Penderfynais felly, gynnig cyfleoedd eang i'r dysgwyr drwy ddyrannu o leiaf un gweithgaredd digidol ym mhob gwers gan argyhoeddi pwysigrwydd diogelwch y we. Wrth hwylio drwy PAP, cyfarwyddaf â'r gofynion gan ddatblygu'u profiadau, drwy gynnig cyfleoedd a systemau digidol modern e.e. *ChatterPix* a *Qlone*. Serch hynny, cydnabyddir, "that digital competencies should be perceived as not only concerned with technical skills, but more focused on cognitive, social and emotional aspects of working and living in a digital environment (Eshet-Alkalai, 2004). Adlewyrchwyd hyn yn atodiad 30, wrth gyflwyno'r wers drwy animeiddiad a chyflyrru'u teimladau. Agorir hyn gul y drws i'r byd digidol, ac ymgysylltwyd â systemau a thechnoleg newydd/anghyfarwydd. Dylwn fod wedi ystyried oedran datblygedig y plant, gan ganolbwyntio a'r ambell sgil, i gychwyn.

Er weithredwyd CD yn yr awyr agored, teimlaf, y gellir ddatblygu drwy fanteisio, a sicrhau rhyddid ac annibynniaeth ar draws MDaPh, am i addysg dan do deimlo'n orlawn a chaeedig gan arwain y plant at ymdeimlad mewnblyg (Bratton *et al,* 2005). Er imi benodi 'heriau annibynnol' ar draws y MDaPh, bob prynhawn, ni chaniateir cyfle iddynt ehangu/priodi sgiliau CD â MDaPh.

Mae addysgu a dysgu da'n golygu priodi sgiliau trawsgwricwlaidd, drwy gynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu'n ymhellach. Ar gyfer PAP rhan 2, sylweddolaf fod angen ddyfnhau a chysylltu'r 'cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd' â bywyd pob dydd. Anelaf hefyd, hyrwyddo a chynllunio tasgau grŵp/phâr er mwyn cynnig cyfle iddynt gamu allan o'u cregyn drwy rhannu'u profiadau newydd â'u cyfoedion, am nodwyd iddynt ddysgu'n well o'u cyfoedion (Barnnes, 2015).

Egwyddor: Mae addysgu a dysgu da'n golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.

Mae dysgu'n broses gynhwysol lle adeiladai'r dysgwr ar fframweithiau presennol gan lunio ystyron newydd, yn gysylltiedig â'u gwybodaeth/profiadau blaenorol (Osborne; Wittrock, 1989).

Ar ddechrau PAP rhan 1, roedd casglu gwybodaeth flaenorol y plant a'u profiadau personol yn heriol am fod pawb yn wahanol ac yn gwreiddio o gefndiroedd gwahanol. Cydnabyddir fod gwybodaeth gefndirol hygyrch yn bwysig, gan sicrhau y caiff gwybodaeth ei hymarfer a'i glymu â phrofiadau blaenorol (Rosenshine, 2012). Cyflyrai Hattie (2012), fel darpar athro, mae'n ddyletswydd arna'i i grynhoi dealltwriaeth fanwl o gyraeddiadau a chyflawniadau'r disgyblion cyn mentro cynllunio ar eu cyfer. Fel darpar athro nid oedd hyn yn bosib am ni adnabyddaf y plant. Cydnabyddir felly, byddai adnabod y plant a'u storfa wybodaeth yn fy nghaniatáu i deilwra'r gwersi, drwy ddefnydd adnoddau a thasgau i'r disgyblion bontio'r bwlch rhwng eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol a chyfredol (Hattie, 2012). Sylweddolaf, bwysigrwydd darparu adnoddau a thasgau fel modd i'r plant ddatblygu'n annibynnol, cymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Pwysleisiodd Vygotsky (1978) ar rôl yr athro i scaffaldio dealltwriaeth y dysgwyr drwy addysg strwythuredig:

> What the child can do in cooperation today he can do alone tomorrow. (Vygotsky, dyfynnwyd yn: Alexander, 2000, t. 431).

Yn ogystal â darganfod ble mae'r plant arni, mae'n bwysig cydnabod unrhyw gamsyniadau datblygedig o addysg neu brofiadau blaenorol. Argyhoedda Hattie (2012, tud. 42), yr hyn a gredir Piaget (1970) "before teachers can help students to 'construct' knowledge and understanding, they need to know the different ways in which students think". Wrth gychwyn ar fy nhaith fel darpar athro, gwelaf hyn yn heriol am nad oeddwn yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd o feddwl. Er imi graffu ar waith y plant yn ystod yr wythnos arsylwi, er mwyn derbyn mewnwelediad i'w gwahanol ffyrdd o feddwl, ni chaniateir ddigon o ymwybyddiaeth imi fedru adeiladu'u gwybodaeth a'u profiadau blaenorol. Gallwn fod wedi ymchwilio i gynllun tymor hir/canolig yr ysgol gan dderbyn mewnwelediad cliriach o gyrhaeddiad presennol y dysgwyr, yn ogystal â dilyniant, er mwyn cynllunio tasgau a chynnig adnoddau adeiladol pwrpasol a enynnwyd eu diddordeb.

Wrth gychwyn PAP, tueddir cynllunio'n arwynebol gan ddewis a dethol sgiliau o *Incerts* yn hytrach na gweithio'n ddilynol/strwythuredig o wersi blaenorol. Medr 'adeiladu' ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol disgybl caniatáu iddynt ddod yn ymwybodol o'u prosesau gan gymryd rheolaeth drostynt a datblygu dealltwriaeth wybyddol ddefnyddiol yn seiliedig ar brofiadau blaenorol (Hattie, 2012). Fel yr amlygwyd yn ED 7, cynlluniwyd fy ngwersi fel cyfres o dair gan sicrhau paratoad o dasgau a chaniateir i'r dysgwyr adeiladu ar eu profiadau blaenorol. Darparir, adnoddau pwrpasol i'r dysgwyr i'w cefnogi gan sicrhau rhediad gwybodaeth bwrpasol, drwy wneud yr addysgu'n strwythurol eglur er mwyn caniatáu i'r dysgwyr greu cysylltiad adeiladol clir rhwng gwahanol MDaPh a scaffaldio'u dysgu, adlewyrchwyd fy arfer llwyddiannus drwy sylwadau'r mentor dosbarth (atodiad 42). Fodd bynnag, pan gyflwynaf destun newydd, sathrwyd diddordeb y plant yn syth, am ni pherchnogwyd eu gwybodaeth a'u profiadau blaenorol, am ni wêl y cysylltiad. Sylwais, ni amgyffredai sawl disgybl pan gyflwynaf destun newydd, nes imi bwyso'r ddolen gyswllt rhwng bwriad y wers bresennol ac unrhyw addysgu/dysgu pwrpasol cynt. Er imi weithredu cyfnod 'galw i gof' ar ddechrau pob gwers, cydnabyddir bellach y dylwn fod wedi'i weithredu'n amlycach gan argyhoeddi'r iddynt gydnabod y cysylltiadau adeiladol.

Wrth i'r lleoliad ddatblygu, datblyga wybodaeth a phrofiadau'r dysgwyr yn ogystal. Fel yr adlewyrchwyd yn ED 8, gorfodir hyn imi adnewyddu a datblygu tasgau ac adnoddau'r darpariaethau i gyd-fynd â gofynion adeiladol y plant. Noda Dweck (1999) bwysigrwydd deall 'pwrpas' yr hyn a ddysgwyd, gan ddatblygu 'meddylfryd twf' ac ymgymryd â heriau a sicrhawyd cynnydd i'w gallu a'u cyflawniad. Drwy hyn, sicrhaf fod y dysgwyr yn caffael, ymarfer, chysylltu gan adeiladu ar wybodaeth flaenorol drwy gefnogaeth a chyfarwyddid pwrpasol. Wrth hwylio drwy PAP, sylwyd imi ddatblygu, drwy alw i gof a chrynhoi'u gwybodaeth o'r wers flaenorol ar ddechrau pob gwers, gan ofyn iddynt ymhelaethu'r hyn a ddysgwyd. Yna, sbardunwyd y plant i ddefnyddio'r wybodaeth hwn, fel cymorth yn ystod y wers bresennol, gan ennyn eu diddordeb wrth iddynt lwyddo. Noda Harackiewicz (2016) fod llwyddiant academaidd yn broses ysbrydoledig sy'n bywiogi dysgu ac yn hanfodol i sbarduno diddordeb y dysgwyr gan roi ystyr i'w bwrpas.

Defnyddiwyd 'thema' fel llinyn i gysylltu'r addysgu ynghyd. Ymdriniaf â'r thema'n bersonol, fel ychwanegiad cysurus, wrth i bawb weithredu'r un lefel o ddealltwriaeth thematig. Gweithredwyd y thema, drwy ddilyn yr un strwythur a'r gyfres o wersi gan ganiatáu adeiladaeth gwybodaeth, phrofiadau a dealltwriaeth y plant, drwy dasgau ac adnoddau 'thema' datblygedig. Yn ogystal â hyn, er mwyn datblygu'r plant ymhellach, manteisiwyd ar y cyfle i gysylltu'r thema bresennol â'r thema flaenorol er mwyn ennyn diddordeb a deffro gwybodaeth flaenorol fel sbardun cymorth i greu'r arddangosfa 'pawb yn wahanol' (atodiad 47). Serch hyn, byddai cyfoethogi a myfyrio ar wybodaeth adeiladol y dysgwyr, gan ganiatáu imi symud y dysgu yn ei flaen, yn seiliedig ar eu dealltwriaeth lefel uwch (Gilhooly, 2017). Cydnabyddir, yn hytrach nag ychwanegu adnoddau newydd, byddai'n syniad imi ychwanegu'r un adnoddau, ond o wahanol fath, e.e. siapiau 3D - ychwanegwyd yr un siapiau, ond o wahanol faint/dimensiwn er mwyn eu caniatáu i'w ddefnyddio'n gronedig i ddatrys problemau, gan ystyried lefel her briodol.

Golygai dysgu ynghylch addysgu, inni ddeall lefel cyrhaeddiad dysgwyr a'u gweithredu drwy osod tasgau ac adnoddau priodol a chaniateir adeiladu'u gwybodaeth a'u profiadau yn seiliedig ar ddiddordeb. Er mwyn gweithredu hyn i'r eithaf, bwriadaf ar PAP rhan 2, gynnig y datblygiad a'r sgiliau, yn yr un modd, ond gan sicrhau mewnblaniad

canolog ac ystyriol o sefyllfaoedd a gweithredoedd bywyd ‘go iawn’, am mai dyma arweiniwyd drwy weddill eu hoes.

I gloi, amlygir inni addysgu a dysgu am ddyfodol sy’n anfodoledig ar hyn o bryd. Wrth ystyried fy natblygiad a chynnydd ar draws tair egwyddor addysgegol, cydnabyddir i’m harfer fel darpar athro adlewyrchu’n gryf ar ganlyniadau a datblygiad y dysgwyr. Heb unrhyw amheuaeth, ystyriaf i ddatblygiad gwybodaeth a sgiliau cyfoes mewn disgybliaethau barhau’n hanfodol. Serch hynny, casglwyd ni ymwneir llwyddiant addysgol bellach ag atgynhyrchu gwybodaeth cynhwysol, gan yn hytrach, ymwneud ag allosod yr hyn a wyddom, a chymhwyso’r wybodaeth hwn mewn sefyllfaoedd newydd.

Wrth i’r byd addysg ddatblygu’n gyflym, cydnabyddir fod hunan ddatblygu’n harferion addysgegol yn hollbwyisg wrth addysgu plant y dyfodol. Fel amlinellai’r adfyfyrio uchod, craidd addysgu a dysgu da yw ‘datblygiad’. Cydnabuwyd, fod yna le i wella, a bwriadaf ddatblygu’n foesegol drwy hunanaddysgu’n ymhellach a manteisio ar unrhyw gyfleoedd ehangach gan wreiddio unrhyw gymorth ddatblygiadol a’i weithredu lle y bo’ modd.

3,300 gair.

Rhestr gyfeirio

Monday, December 16, 2019 9:57 AM

Ausubel, D. P. (1968). *Educational Psychology: A Cognitive View.* New York: Holt, Rinehart, a Winston.

Barlow, C. and A. Brook. 2010. Geography and Art: Local Area Work. *Primary Geographer,* 72(Summer), tud.16–17.

Barnes, J. (2015). *Cross-curricular Learning 3-14.* 3ydd Arg. London: SAGE Publications.

Barnes, J. (2015b). An Introduction to Cross-Curricular Learning. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/ (Darllenwyd: 24 Tachwedd 2019).

Black *et al*. (2003). Formative and summative Assessment: Can They Serve Learning Together? Chicago: SIG.

Black, P. a Wiliam, D. (1998). *Inside the Black Box*. London: School of Education, King's College.

Bloom, B. S. (1956). *Taxonomy of Educational Objectives, Handbook I: The Cognitive Domain.* New York: David McKay Co Inc.

Bratton *et al.* (2005). *Learning outdoors in the early years,* Ar gael yn: https://ccea.org.uk/ (Darllenwyd: 23 Tachwedd 2019).

Cambridge Assessment International Education. (2019). *Getting started with Assessment for Learning.* Ar gael yn: https://cambridge-community.org.uk/professional-development/ (Darllenwyd: 16 Rhagfyr 2019).

Campbell, L. a Campbell, B. (2009). *Mindful Learning.* 2il Arg. London: Corwin Press.

Carpenter, R. (anhysbys). *Building Learning Through Expansive Feedback – A Primary Perspective.* Ar gael yn: http://www.robcarpenter.org.uk/ (Darllenwyd: 14 Rhagfyr 2019).

Curriculum For Excellence. (anhysbys(a)). *Curriculum for excellence: literacy across learning.* Ar gael yn: www.curriculumforexcellencescotland.gov.uk (Darllenwyd: 20 Rhagfyr 2019).

Curriculum For Excellence. (anhysbys(b)). *Curriculum for excellence.* Ar gael yn: http://www.moray.gov.uk/ (Darllenwyd: 20 Rhagfyr 2019).

Davies, S., (2006) *The Essential Guide to Teaching,* Harlow: Pearson Education Ltd.

Dewey, J. (1992). *Intrest and Effort in Education.* Carbondale: Southern Illinois University Press.

Dewey, J. (1997) *Experience and Education*. New York: Collier Books.

Dixie, G. a Bell, J. (2009). *The Trainee Primary Teacher's Handbook.* London: Continuum.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus.* Ar gael yn: https://llyw.cymru/ (Darllenwyd 15 Rhagfyr 2019).

Dweck, C. (2006). *Mindset / the new psychology of success.* New York: Random House.

Dweck, C. S. (1999). *Self-theories: rheir role in motivation, personality, and development.* Philadelphia, PA: Psychology Press.

Earl, L. a Katz, S. (2008). 'Getting to the Core of Learning: Using Assessment for Self-Monitoring and Self-Regulation', *Unlocking Assessment: Understanding for Reflection and Application*, tud. 90-104. DOI:10.4324/9780203930939.

Education Endoment Foundation. (2017). Improving Literacy in Key Stage. London: Education Endoment Foundation.

Estyn. (2010). *Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.* Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/ (Darllenwyd: 18 Tachwedd 2019).

Estyn. (2018). Ad*roddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2017-2018.* Ar gael yn: https://www.estyn.gov.wales/ (Darllenwyd: 11 Rhagfyr 2019).

Gilhooly, C. (2017). 'Developing exceptional leaders', *National College and leadership* [blog]. 7 Tachwedd. Ar gael yn: https://teaching.blog.gov.uk/2017/ (Darllenwyd 3 Rhagfyr 2019).

Granske, K. (2017). *Lesson Closure: An Important Piece of the Student Learning Puzzle,* 71(1), tud. 95-100. DOI: 10.1002/trtr.1587.

Hague, C. a Payton, S. (2010). *Digital literacy across the curriculum.* Ar gael yn: https://www.nfer.ac.uk/ (Darllenwyd: 14 Rhagfyr 2019).

Harackiewicz, Judith M et al. (2016) Interest Matters: The Importance of Promoting Interest in Education, *Policy insights from the behavioral and brain sciences,* 3(2), tud. 220-227. DOI:10.1177/2372732216655542

Haskins, C. (2010). 'Educating the Whole Child', *Supporting Children's Freedom to DiscoverThemselves and Their World: Education Revolution,* 22(2), tud. 10-12.

Hattie, J. (1999). *Preparing the lesson.* London: Routledge.

Hattie, J. (2012). *Visible learning for teachers: maximizing impact on learning.* London: Routledge.

Hattie, J., & Timperley, H. (2007). The power of feedback. *Review of Educational Research, 77(1*), tud. 81–112. DOI: 10.3102/003465430298487

Ionas. I. G. a Cernusca. D. a Harvest L. C. (2012). 'Prior Knowledge Influence on Self-Explanation Effectiveness When Solving Problems: An Exploratory Study in Science Learning', *International Journal of Teaching and Learning in Higher Education,* 24(3).

James, M. (1998). *Using Assessment* for *School Improvement.* Oxford: Heinemann.

Lewis, Huw. (2015). 'Datganiad Ysgrifenedig – Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am oes, *Datganiad Cabinet.* Ar gael yn: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cwricwlwm-i-gymru-cwricwlwm-am-oes (Darllenwyd: 22 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru. (2008). *Knowledge and Understanding of the world*. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/ (Darllenwyd 2 Ionawr 2020).

Llywodraeth Cymru. (2010). *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2013). *Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.* Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/ (Darllenwyd: 11 Rhagfyr 2019).

Llywodraeth Cymru. (2017). *Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen.* Ar gael yn: https://www.gwegogledd.cymru/ (Darllenwyd: 24 Rhagfyr 2019).

Llywodraeth Cymru. (2017b). Digital skills and inclusion - giving everyone access to the digital skills they need*, Department for Digital, Culture, Media & Sport.* Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/ (Darllenwyd: 17 Tachwedd 2019).

Llywodraeth Cymru. (2019). *Cwricwlwm drafft i Gymru 2022: Mathemateg a Rhifedd.* Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/mathemateg-a-rhifedd/ (Darllenwyd: 20 Rhafyr 2019).

Llywodraeth Cymru. (2019). *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.* Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/ (Darllenwyd: 22 Tachwedd 2019).

Marry Immaculate High School. (2018). E-Learning & Digital Competence: our aim. Ar gael yn: https://www.maryimmaculate.org.uk/ (Darllenwyd: 26 Rhagfyr 2019).

Martin, F. 2002. *Primary Historians and Geographers Learning from Each Other: Making Supportive Cross-Curricular Links to Enhance Learning and Teaching.* Ar gael yn: https://www.history.org.uk/primary/ (Darllenwyd: 24 Tachwedd 2019).

McFadizen, N. (2015). 'Why is effective feedback so critical in teaching and learning?', *Journal of Initial Teacher Inquiry,* 2015. Ar gael yn: https://ir.canterbury.ac.nz/ (Darllenwyd: 15 Rhagfyr 2019).

McLeod, S. A. (2019). *Constructivism as a theory for teaching and learning*, Simply Psychology. Ar gael yn: https://www.simplypsychology.org/ (Darllenwyd: 13 Tachwedd 2019(.

Monteiro, N. (2016). *Students will learn more if they're interested.* Ar gael yn: https://edu.rsc.org/ (Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2019).

Ofsted. (2011). *The impact of the 'Assessing pupils' progress' initiative.* Manchester: Ofsted.

Oliver, K. M. (2000). Methods for developing constructivism learning on the web. *Educational Technology,* 40(6).

Osborne, R. a Wittrock, M. C. (1989). The generative learning model and its implications for science education studies. *Science Education*, *12*, tud. 57–87.

Phillips, D. C. (1995). *The good, the bad, and the ugly: The many faces of constructivism.* Educational Researcher, 24(7), tud. 5-12.

Pollard, A. (2014a). *Readings for reflective teaching in schools.* 2il Arg. London: Bloomsbury Academic.

Pollard, A., (2014b) *Reflective teaching in schools.* London. Bloomsbury.

Prensky, M. (2001). 'Digital Natives, Digital Immigrants'*, MCB University Press,* 9(5).

Rosenshine, B. (2012). 'Principles of Instruction', *American Educator.* Ar gael yn: https://www.aft.org/ (Darllenwyd: 27 Rhagfyr 2019).

Rowe, M. (1986). Wait Time: Slowing Down May Be A Way of Speeding Up!, *Journal of Teacher Education,* 37(43), SAGE Publications. DOI: 10.1177/002248718603700110

Schunk, D. H. (2012). *Learning Theories: An Educational Perspective.* 6ed Arg. Boston: Pearson.

Vygotsky, L. S. (1978). *Mind in society: The development of higher psychological processes.* Cambridge: Harvard University Press.

Vygotsky, L. S. quoted in Alexander, R. J. (2000). *Culture and Pedagogy: international comparisons in primary education.* Oxford: Blackwell.

Webb, D. (2010). *Paulo Freire and 'the need for a kind of education in hope'*. Cambridge: Cambridge Journal of Education.

WISERD. (2014). *Evaluating the Foundation Phase.* Ar gael yn: https://wiserd.ac.uk/research/ (Darllenwyd: 22 Rhagfyr 2019).

Wortham, S. 1996. *The Integrated Classroom: The Assessment-Curriculum Link in the Early Childhood Classroom.* Prentice Hall: Englewood Cliffs, NJ.

Y Eshet-Alkalai, 2004, Digital literacy: A conceptual framework for survival skills in the digital era, *Journal of Educational Multimedia and Hypermedia*, 13(1), tud: 93–106.